



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

2018–2019



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park



CLILC • WLGA



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

WELSH
PORTS
GROUP



Dŵr Cymru
Welsh Water



JNCC
Joint Nature Conservation Committee

Cynnwys

Adran 1 Cyflwyniad	1
Adran 2 Strwythur yr Adroddiad	3
Adran 3 Cynnydd ac Uchafbwyntiau	4
Tabl 1 Crynodeb o Gynnydd: Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019	6
Tabl 2 Camau gweithredu ychwanegol y tu allan i'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019	19
Atodiad A Rhagor o fanylion am hynt y camau rheoli unigol yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019	23
Atodiad B Rhagor o fanylion am hynt y camau rheoli y tu allan i Gynllun Gweithredu 2018-2019	65

Adran 1

Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar Reoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAau) sydd wedi'i gynhyrchu gan y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig¹ (y Grŵp Llywio), a'i phrif ddiben yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019².

Aeth Cynllun Gweithredu 2018-2019 ati, am y tro cyntaf, i ddwyn ynghyd y camau gweithredu lefel rhwydwaith â blaenoriaeth i wella rheolaeth MPAau a gwella neu gynnal cyflwr y rhwydwaith o MPAau yng Nghymru. Roedd pob cam gweithredu yn cefnogi o leiaf un o'r pum egwyddor rheoli a nodwyd yn Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru 2018-2023³ (y Fframwaith) (gweler Bocs 1).

Mae'r fframwaith yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer rheoli'r rhwydwaith o MPAau yng Nghymru ac mae Cynllun Gweithredu 2018-2019 yn adnodd allweddol i Awdurdodau Rheoli arwain y gwaith o gyflawni'r weledigaeth tymor hir ar gyfer rheoli'r rhwydwaith:

Bydd rhwydwaith MPAau Cymru o dan reolaeth effeithiol a chyson sy'n diogelu bywyd gwylt a chynefinoedd morol safleoedd, gan arwain at gyflawni neu gynnal cyflwr ffafriol nodweddion safleoedd. Bydd y gwaith o reoli'r rhwydwaith yn cefnogi ecosystemau morol gwydn a fydd, yn eu tro, yn helpu i greu moroedd glân, diogel, iach, cynaliadwy, cynhyrchiol a biolegol amrywiol yng Nghymru. Bydd MPAau yn cael eu gwerthfawrogi am y buddion hirdymor y maen nhw'n eu darparu i bobl Cymru, trwy amddiffyn eu treftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cynnwys gwybodaeth am allbynnau a chanlyniadau gweithgareddau rheoli, gan fyfyrto ar sut mae camau gweithredu yn cyfrannu at wella rheolaeth MPAau ac at wella neu gynnal cyflwr y rhwydwaith o MPAau i gefnogi'r weledigaeth hon. Mae'n gyfle hefyd i sefydliadau dynnu sylw at waith ar raddfa leol a rhwydwaith sy'n ategu'r camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019 a gyflawnwyd gan Awdurdodau Rheoli⁴.

Wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn, mae'r Grŵp Llywio wedi ystyried sut y gall asesu a beirniadu'n well y cyfraniad a wnaed gan Gynllun Gweithredu 2018-2019 at gyflwr cyffredinol y rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchoddedig yng Nghymru. Mae'r grŵp llywio wedi adlewyrchu'r dysgu hwn yn ei waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu⁵, a bydd yn ei ddefnyddio i lywio fersiynau o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gweithredu yn y dyfodol.

¹ Cylich gorchwyl y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig:

www.gweddill.llyw.cymru/docs/drah/publications/151118-marine-protected-areas-management-steering-group-terms-of-reference-cy.pdf

² www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-rheolir-rhwydwaith-o-ardaloedd-morol-gwarchoddedig

³ www.llyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchoddedig-cymru

⁴ Term a ddefnyddir i gyfeirio ar y cyd at sefydliadau sydd â chyfrifoldebau statudol mewn perthynas ag unrhyw fath o MPA, neu sy'n berchnogion tir arfordirol neu wely'r môr sylweddol. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau perthnasol a chymwys fel y'u diffinnir gan y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth (2017) ac awdurdodau cyhoeddus fel y'u diffinnir yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009). Gweler Atodiad 3 o Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru am restr o'r Awdurdodau Rheoli yng Nghymru:

www.llyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchoddedig-cymru

⁵ llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-rheolir-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchoddedig-2019-2020

Bocs 1: Egwyddorion Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

- 1. Cynllunio strategol:** Dylai'r gwaith o reoli gael ei lywio gan brosesau cynllunio strategol ar lefel adrannol yn ogystal â lefel Cymru gyfan. Mae'n cefnogi'r defnydd cynaliadwy o'r rhwydwaith MPAAu mewn ffyrdd sy'n gwarchod ac yn gwella cyflwr, yn cefnogi gwydnwch ecosystemau morol, yn cefnogi llesiant ac sy'n sicrhau y rheolir adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- 2. Rheoliadau, cydsyniad ar gyfer datblygiadau a phrosesau asesu:** Dylid cyflawni prosesau rheoleiddio, cydsynio a phrosesau penderfynu sy'n galluogi gweithgarwch mewn modd cyson a chymesur ar draws y rhwydwaith, a mynd ati mewn modd rhagweithiol i ystyried a chefnogi'r gwaith o gynnal neu wella cyflwr safleoedd a'r nodweddion perthnasol ar draws y rhwydwaith, lle bo hynny'n bosibl/yn briodol.
- 3. Cyngor ac arweiniad ar reoli:** Dylai gweithrediadau penderfynu a rheoli gael eu cefnogi gan gyngor ac arweiniad clir a chyson ar MPAAu, gan gynnwys eu hamcanion cadwraeth.
- 4. Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a'r bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn llywio gwaith rheoli:** Dylai gwaith rheoli gael ei arwain gan asesiadau ac adroddiadau ffurfiol ar iechyd a chyflwr nodweddion, safleoedd a'r rhwydwaith yn ei gyfanrwydd, a chyfeirio'n gyson atynt. Caiff asesiadau ac adroddiadau eu llywio gan raglen fonitro â blaenoriaethau sy'n gwella'r ddealltwriaeth o gyflwr, newid ac effeithiau ar draws agweddau ar y rhwydwaith lle y nodir pwysau allweddol.
- 5. Rheolaeth ehangach:** Dylid blaenoriaethu gweithrediadau rheoli ar safleoedd unigol a lluosog er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cyflawni sydd â'r potensial i greu'r gwelliant mwyaf wrth reoli pwysau allweddol, a gwella'r cyflwr ar draws y rhwydwaith. Gall gweithgareddau rheoli gynnal neu wella cyflwr nodweddion, nodi a mynd i'r afael â phroblemau a phwysau lleol, a chodi ymwybyddiaeth o MPAAu, trwy ymyriadau wedi'u targedu a thrwy ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd.

Adran 2

Strwythur yr Adroddiad

Mae'r Awdurdodau Rheoli wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran cyflawni pob un o'u camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r allbynnau a'r canlyniadau ar gyfer pob un, gyda mwy o fanylion yn Atodiad A. Fel rhan o'r broses hon, cynhyrchodd Grwpiau Awdurdod Perthnasol (RAGs)⁶ Safleoedd Morol Ewropeaidd adroddiad i'r Grŵp Llywio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau lleol sy'n digwydd o fewn Safleoedd Morol Ewropeaidd. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chrynhai yn yr Adroddiad Blyneddol hwn (Camau gweithredu 15 a 20, a'r atodiadau cysylltiedig) a gellir gweld yr adroddiad llawn ar wefan Llywodraeth Cymru⁷.

Mae Tabl 2 ac Atodiad B, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran y camau rheoli hynny a gyflawnwyd, yn ogystal â'r camau â blaenoriaeth a nodwyd gan y Grŵp Llywio yn 2018-2019. Cafodd y wybodaeth hon ei chrynhai yn dilyn cais am wybodaeth trwy Grŵp Cynghori a Gweithredu Morol Cymru (WMAAG). Cafwyd cyfraniadau gan:

- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru;
- y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar;
- y Gymdeithas Cadwraeth Forol;
- Dŵr Cymru.

Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd yn rhoi enghreifftiau o weithgareddau rheoli ardaloedd morol gwarchodedig ehangach sy'n digwydd ym moroedd Cymru sy'n ategu'r camau a gyflawnir gan Awdurdodau Rheoli trwy'r Cynllun Gweithredu. Mae'r Grŵp Llywio'n cefnogi'r bwriad diweddar i sefydlu grŵp'rhanddeiliaid newydd o dan WMAAG i ddarparu fforwm i hwyluso trafodaeth fanylach ynghylch rheoli ardaloedd morol gwarchodedig, ymysg ardaloedd morol eraill, a galluogi ymgysylltu ehangach wrth ddatblygu Cynlluniau Gweithredu i'r dyfodol.

⁶ Yn Grŵp yr Awdurdodau Perthnasol (RAG) Pen Llŷn a'r Sarnau; RAG Bae Ceredigion; RAG Morol Sir Benfro; RAG Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd; a Chymdeithas RAG Aber Afon Hafren.

⁷ llyw.cymru/y-diweddaraf-am-grwpiau-awdurdodau-perthnasol-cymru-2018-19

Adran 3

Cynnydd ac Uchafbwyntiau

Blaenoriaethodd y Grŵp Llywio 21 o gamau gweithredu i'w cyflawni gan Awdurdodau Rheoli yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019. Roedd pob cam gweithredu yn cefnogi o leiaf un o'r pum egwyddor rheoli (gweler Bocs 1) ac roedd y broses flaenoriaethu wedi'i chynllunio i ganolbwyntio ymdrechion ar gamau gweithredu sy'n gwella rheolaeth y rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchoddedig ac yn gwella neu'n cynnal cyflwr y rhwydwaith.

Mae'r camau gweithredu'n amrywio o ran natur, o weithgareddau ar raddfa rhwydwaith i ymyriadau penodol a phrosiectau peilot lleol. Mae llawer yn barhaus, er enghraifft, y camau gweithredu hynny sy'n seiliedig ar broses asesu neu reoleiddio. Mae eraill yn dasgau neu brosiectau ar wahân gyda dyddiadau dechrau a gorffen diffiniedig, yn aml yn para mwy na deuddeng mis. Mae gwaith parhaus a'r prosiectau a'r tasgau hynny sy'n para mwy na blwyddyn wedi cael eu dwyn ymlaen i Gynllun Gweithredu 2019-20⁸, ochr yn ochr â chymau sydd newydd eu blaenoriaethu. Mae amryw o'r camau gweithredu parhaus, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chynllunio a chydysnio, er nad ydynt bob amser yn weladwy i gynulleidfaoedd allanol, yn parhau i ddarparu amddiffyniad hanfodol i'r rhwydwaith ac yn cynrychioli cryn dipyn o waith rheoli.

Wrth ystyried allbynnau a chanlyniadau pob un o'r camau gweithredu, mae'r Grŵp Llywio wedi gallu adolygu yn strategol gynnydd unigol ac ar y cyd tuag at weledigaeth ac amcanion y Fframwaith.

I grynhoi, mae'r Awdurdodau Rheoli wedi cyflawni cryn dipyn o weithgarwch eleni yn ymwneud â:

- chryfhau prosesau penderfynu a datblygu a gweithredu strategaethau;
- gwella'r sail dystiolaeth;
- cynyddu ein dealltwriaeth o'r pwysau ar nodweddion MPAAu a'r amgylchedd morol ehangach.

Mae enghreifftiau o waith a gyflawnwyd o Gynllun Gweithredu 2018-2019 sy'n amlygu cyfraniadau ar lefel leol a rhwydwaith i bum egwyddor rheoli'r Fframwaith yn cynnwys:

1. Cychwyn y broses o ddwyn ynghyd a gwella mynediad at dystiolaeth, canllawiau a dulliau penderfynu i gefnogi datblygiad cynaliadwy sectorau a dargedir a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer yr amgylchedd morol, gan gynnwys y rhwydwaith o MPAAu (gweler Cam gweithredu 16);
2. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried effeithiau posibl ar MPAAu wrth bennu 55 o drwyddedau morol a, lle bo angen, mae mesurau lliniaru priodol wedi'u cynnwys fel amod ar drwyddedau morol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 15 o esemptiadau i ddeddfwriaeth pysgodfeydd ar gyfer gwaith ymchwil gwyddonol amrywiol, yr oedd 10 ohonynt yn gofyn am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a oedd yn cadarnhau na fyddai unrhyw effaith ar rywogaethau a chynefinoedd gwarchoddedig (gweler Cam gweithredu 2);
3. Darparu canllawiau ar gynaeafu gwymon er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i baratoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer asesiadau amgylcheddol ac i wella'r rheolaeth ar MPAAu a'r amgylchedd morol ehangach (gweler Cam gweithredu 18);
4. Sicrhau sail dystiolaeth ar ddsbarthiad a dwysedd cymharol y rhai sy'n cloddio am abwyd a'r gorgyffwrdd â nodweddion sensitif fel rhan o gam 2 y prosiect gweithgareddau anrheoleiddiedig (gweler Cam gweithredu 12); a

⁸ llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-rheolir-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchoddedig-2019-2020

5. Mae prosiectau i gael gwell dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ansawdd dŵr yn yr amgylchedd morol wedi'u darparu yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS) a Morol Sir Benfro ac mae argymhellion ar gyfer gwella ansawdd dŵr wedi'u datblygu (gweler Camau gweithredu 15 ac 20). Mae ansawdd dŵr yn berthnasol i sawl safle a gellir defnyddio'r hyn a ddysgir o'r prosiectau hyn ar draws safleoedd i helpu i wella gwaith rheoli ac felly gyflwr y rhwydwaith.

Bydd Cynlluniau Gweithredu yn y dyfodol yn ceisio adeiladu ar y gwaith hwn, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng darpariaeth lefel rhwydwaith a lefel safle. Bydd y Grŵp Llywio'n myfyrio ar ddatblygiadau'r dyfodol o fewn y cyd-destun polisi ehangach a sut y gallant ymwneud â rheoli MPAAu yng Nghymru.

Tabl 1

Crynodeb o Gynnydd: Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
1	<p>Datblygu dull o gynnal asesiadau gwell a chyfnodol o gyflwr MPAau.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A1.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 2,3,4,5.</p>	CNC	<p>Mae gwaith wedi cychwyn i ddatblygu dangosyddion a phroses ar gyfer adrodd ar gyflwr nodweddion a warchodir o fewn y rhwydwaith o MPAau yng Nghymru.</p> <p>Mae cyllid EMFF wedi'i sicrhau i gyflawni'r gwaith hwn (dyddiad cychwyn y prosiect yw mis Hydref 2018), ac mae rhai contractau eisoes wedi'u rhoi ar waith i gefnogi'r prosiect.</p> <p>Cam gweithredu a ddygwyd drosodd, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 1.</p>	Bydd y prosiect hwn yn symleiddio'r broses asesu cyflwr ar gyfer y rhwydwaith o MPAau i ategu rheolaeth ar draws y rhwydwaith e.e. adrodd, HRA a blaenoriaethu mesurau rheoli lle bo angen.

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
2	<p>Rheoli MPAau trwy brosesau asesu a chydsynio rheoleiddiol.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A2.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 1,2,4,5.</p>	Pob Awdurdod Rheoli	<p>Mae Awdurdodau Rheoli wedi rheoli MPAau yn effeithiol trwy ystyried effeithiau posibl MPAau trwy brosesau asesu (e.e. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd; Asesiad Amgylcheddol Strategol; ac Asesiad Effaith Amgylcheddol) a chydsynio rheoleiddiol (e.e. trwyddedu morol; Cydsyniadau SoDdGA; a thrwyddedu rhywogaethau) a phrosesau penderfynu sy'n galluogi gweithgareddau.</p> <p>Cam gweithredu parhaus, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 2.</p>	<p>Mae prosesau asesu a chydsynio rheoleiddiol a phrosesau penderfynu sy'n galluogi gweithgareddau yn ystyried effeithiau ar MPAau, a'u bwriad yw cefnogi gwaith cynnal a chadw (neu wella lle bo hynny'n bosibl/yn briodol) cyflwr safleoedd a nodweddion perthnasol ar draws y rhwydwaith.</p>
3	<p>Gwella hygyrchedd data monitro morol.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A3.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 4,5.</p>	CNC	<p>Mae data monitro o 2015, 2016 a 2017 ar gyfer nodweddion gwaddod islanw ACA ar draws dyfroedd Cymru wedi'i grynhoi, ei sicrhau o ran ansawdd a'i gofnodi ar Gronfa Ddata'r Cofnodydd Morol. Dyma'r cynefinoedd a gwmpesir:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 2015: 5 morlyn arfordirol, 3 aber, 1 bae. • 2016: 5 morlyn arfordirol, 6 banc tywod, 8 bae, 1 ymchwiliad bae • 2017: 5 morlyn arfordirol, 8 bae, 1 banc tywod <p>Cam gweithredu a ddygwyd drosodd, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 18.</p>	<p>Mae'r data hwn ar gael bellach trwy Gronfa Ddata'r Cofnodydd Morol i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi ac adrodd ar newid amgylcheddol.</p> <p>Mae hefyd yn gwella'r sail dystiolaeth gyffredinol a ddefnyddir i lywio asesiadau o MPAau (e.e. adrodd ar asesiadau cyflwr o dan y Gyfarwydeb Cynefinoedd) a phrosesau cysylltiedig (e.e. Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd).</p>

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
4	<p>Datblygu ymhellach a chyflwyno rhaglen fonitro seiliedig ar risg ar draws y rhwydwaith o MPAau.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A4.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 3,4,5.</p>	CNC, JNCC a Llywodraeth Cymru	<p>Mae opsiynau ar gyfer cydrannau'r rhaglen ar raddfa'r DU wedi'u cwblhau.</p> <p>Mae'r rhai ar gyfer cynefinoedd gwely'r môr glannau Cymru yn cael eu cwblhau.</p> <p>Cam gweithredu a ddygwyd drosodd, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 3.</p>	<p>Bydd y dull seiliedig ar risg sy'n cael ei ddatblygu yn sicrhau bod y rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n wynebu'r risg fwyaf o bwysau a bygythiadau yn cael blaenoriaeth.</p> <p>Bydd y rhaglen fonitro yn cynnwys elfennau o fonitro ymchwiliol, gan ddarparu data i'n helpu i ddeall pwysau ac effeithiau a llywio mesurau rheoli ac effeithiolrwydd yn well.</p>
5	<p>Datblygu dull o fireinio amcanion cadwraeth ar gyfer pob MPA yng Nghymru, gan barhau i gyhoeddi canllawiau ar gyfer safleoedd newydd fel y bo angen.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A5.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 2,3,4.</p>	CNC a JNCC	<p>Mae'r amcanion cadwraeth ar gyfer AGA Gogledd Bae Ceredigion a'r tair ACA o ran y llamhidyddion sy'n croesi ffin Cymru wedi'u cyhoeddi.</p> <p>Cwblhawyd adolygiad a chymhariaeth o amcanion cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru â'r hyn a gynhyrchwyd gan SNCBs eraill, yn ogystal â phrofion senario o wahanol ddulliau ar gyfer amcanion cadwraeth ym mhroses yr asesiad rheoliadau cynefinoedd.</p> <p>Gweithredu, gweler 2019-2020 cynllun gweithredu, cam gweithredu 4.</p>	<p>Mae'r amcanion cadwraeth newydd hyn bellach yn cael eu defnyddio wrth reoli safleoedd.</p> <p>Yn y tymor hwy, bydd y gwaith hwn yn arwain at ddatblygu cyngor ac amcanion cadwraeth gwell a mwy cyson ar draws y rhwydwaith sy'n haws eu defnyddio wrth reoli MPAau, gan gynnwys prosesau rheoleiddio ac adrodd.</p>

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
6	<p>Datblygu Strategaeth Gwarchod Dolffiniaid a Llamyddion ledled y DU.</p> <p>Ceir manylion pellach am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A6.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 3,4,5.</p>	JNCC, CNC a Llywodraeth Cymru	<p>Cynhaliwyd gweithdy rhanddeiliaid cyn yr ymgynghoriad ym mis Ebrill 2018 i lywio'r gwaith o ddrafftio'r Strategaeth.</p> <p>Cam gweithredu a ddygwyd drosodd, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 5.</p>	Strategaeth sydd â'r nod o gynnal a/neu sicrhau statws cadwraeth ffafriol i'r naw math mwyaf cyffredin o forfil yn y DU trwy reolaeth effeithiol.
7	<p>Gwneud dadansoddiad o samplau data monitro heb eu dadansoddi er mwyn llywio asesiadau o gyflwr safle.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A7.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 4,5.</p>	CNC	<p>Mae 12 mlynedd o ddata monitro ar gyfer ardal o fewn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau wedi'i baratoi, ei ddadansoddi a'i adrodd.</p> <p>Dadansoddiadau o ddata monitro heb ei ddadansoddi i ailasesu cyflwr y lagŵn yn ACA Bae Cemlyn.</p> <p>Cam gweithredu a ddygwyd drosodd, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 19.</p>	<p>Mae'r wybodaeth ddiweddaraf hon bellach ar gael i'w defnyddio i lywio gwaith rheoli safleoedd, gan gynnwys prosesau rheoleiddio ac adrodd.</p> <p>Mae'r nodwedd morlyn arfordirol ym Mae Cemlyn wedi newid o gyflwr "anffafriol" i gyflwr "ffafriol", gyda hyder uchel yn y data. Mae adroddiad cyflwr dangosol diwygiedig ar gyfer ACA Bae Cemlyn⁹ wedi'i gyhoeddi gan CNC i adlewyrchu'r newid mewn statws.</p>

⁹ www.cdn.naturalresources.wales/media/687449/eng-evidence-report-309-cemlyn-sac-indicative-condition-assessment-nov-2018.pdf

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
8	<p>Asesu a, lle y bo angen, rheoli effaith gweithgareddau pysgota masnachol ar MPAAu.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A8.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 4,5.</p>	Llywodraeth Cymru a CNC	<p>Mae'r 40 asesiad ar gyfer y rhyngweithiadau cynefinoedd/offer risg uchaf (yr asesiadau "porffor") wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi ar wefannau Llywodraeth Cymru a CNC (www.naturalresources.wales/awfa?lang=en). Mae gwaith wedi cychwyn ar ran nesaf y gwaith (56 o asesiadau mamaliaid morol).</p> <p>Cam gweithredu a ddygwyd drosodd, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 6.</p>	Bydd y gwaith hwn yn llywio lle gallai fod angen rheoli pysgodfeydd masnachol i ddiogelu'r rhwydwaith o MPAAu, cyfrannu at y defnydd cynaliadwy o bysgod morol a chryfhau cydnerthedd yr amgylchedd morol.
9	<p>Gweithredu dull o orfodi pysgodfeydd sy'n seiliedig ar risg.</p> <p>Ceir manylion pellach am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A9.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 1,2.</p>	Llywodraeth Cymru	<p>O'r 13 erlyniad a ddygwyddodd yn ystod y cyfnod 1/4/2018 – 31/3/2019, roedd 5 yn ymwneud â throeddau o fewn MPAAu ac yn cynnwys troeddau offer a gofodol. Cyhoeddwyd dau rybudd swyddogol yn ystod y cyfnod hwn, gydag un yn ymwneud â throedd mewn perthynas â physgota cregyn bylchog mewn MPA.</p> <p>Cam gweithredu parhaus, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 7.</p>	Mae gorfodi pysgodfeydd (sy'n cynnwys erlyn) o fewn parth Cymru a'i MPAAu yn gweithredu fel rhwystr cryf i helpu i atal gweithgareddau pysgota anghyfreithlon a chyfrannu at barhau i ddiogelu nodweddion MPAAu a chyflwr cyffredinol y rhwydwaith.

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
10	<p>Prosiect Gwella Cyflwr y Rhwydwaith o MPAAu.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A10.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 1,4,5.</p>	CNC	<p>Cwblhau'r broses o gynhoi a dadansoddi data ar y pwysau a'r bygythiadau i nodweddion a warchodir mewn SoDdGA sy'n rhan o'r rhwydwaith o MPAAu.</p> <p>Mae "amaethyddiaeth a rheoli tir" wedi'i nodi fel maes gwaith blaenoriaeth ychwanegol ar gyfer y prosiect hwn.</p> <p>Datblygwyd camau gweithredu â blaenoriaeth ac fe'u cyflwynwyd fel camau rheoli newydd ar gyfer sgrinio a blaenoriaethu ar gyfer Cynllun Gweithredu 2019-2020.</p> <p>Darparwyd cymorth parhaus i brosiectau unigol yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019 (12, 17 a 19) a ddatblygwyd yn flaenorol o dan y rhaglen waith hon.</p> <p>Cam gweithredu parhaus, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 8.</p>	<p>Bydd ffocws yr ymdrech ar heriau rheoli â blaenoriaeth yn parhau i helpu naill ai i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddatblygu a chyflawni camau gweithredu sydd â'r potensial mwyaf i wella (neu gynnal) cyflwr nodweddion ar draws y rhwydwaith; neu • wella dealltwriaeth o gysylltiadau rhwng gweithgareddau a chyflwr nodwedd.
11	<p>Gwella mapiau o ehangder a dosbarthiad cynefinoedd morol Atodiad 1.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A11.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 2,3,4.</p>	CNC	<p>Diweddariadau a diwygiadau a wnaed i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Faint y riff islanw a'r maerl mewn ardaloedd o ACA Môr Sir Benfro; • Maint y gwelyau cregyn dilyw yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau SAC; • Ffiniau banc tywod o fewn ACA Aber Afon Hafren; a • Setiau data ar faint morfeydd heli. <p>Cam gweithredu parhaus, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 9.</p>	<p>Mae mapiau wedi'u diweddaru ar gael bellach i gefnogi a llywio gwaith rheoli MPAAu gan gynnwys prosesau rheoleiddio ac adrodd.</p>

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
12	<p>Cam 2 o'r prosiect gweithgareddau anrheoleiddiedig, yn canolbwyntio ar y gweithgareddau â blaenoriaeth.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A12.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 3,4,5.</p>	CNC	<p>Gwell sail dystiolaeth ar gyfer y gweithgareddau anrheoleiddiedig a nodwyd fel y pryder mwyaf ar raddfa'r rhwydwaith, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angori a lansio (hamdden) – dosbarthiad a dwysedd cymharol; • Pysgota môr hamdden – deall effeithiau; • Cloddio am abwyd/casglu adnoddau byw – dosbarthiad a dwysedd cymharol, a gorgyffwrdd â nodweddion sensitif; a • Mynediad ar droed – ar daloddd sensitif ar gyfer nodweddion adar MPAau, a methodolegau posibl ar gyfer amcangyfrif dwysedd ac ymddygiad mynediad ar droed. <p>Ar gyfer Cam 3, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 21.</p>	<p>Mae tystiolaeth ar gael bellach i'w defnyddio i archwilio ymyriadau rheoli posibl, lle bo angen, er mwyn gwella (neu gynnal) cyflwr nodweddion MPAau.</p> <p>Mae Cam 2 yn llywio lle mae angen tystiolaeth bellach hefyd.</p>
13	<p>Cyflawni'r camau gweithredu â blaenoriaeth o fewn y Cynllun Gweithredu Sbwriel Morol lle maent yn fuddiol i'r rhwydwaith o MPAau yng Nghymru.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A13.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 2,3,4,5.</p>	<p>Y Bartneriaeth Moroedd Glân (CSP):</p> <p>Llywodraeth Cymru, CNC, DGBG, MHPA, ALLau a swyddogion Grŵp Awdurdod Perthnasol (RAG)</p>	<p>Mae cyllid grant EMFF wedi'i sicrhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni amryw o gamau gweithredu'r cynllun. Caiff y prosiect ei gyflawni gan gonsortium sy'n cynnwys Cadwch Gymru'n Daclus, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, awdurdodau lleol ac eraill, a bydd yn casglu ymchwil i sbwriel morol.</p> <p>Cam gweithredu a ddygwyd drosodd, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 10.</p>	<p>Gwella dealltwriaeth o effeithiau sbwriel ar yr amgylchedd morol ac MPAau os cymerir mesurau o'r fath a, lle bo hynny'n briodol, eu lleihau.</p>

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
14	<p>Crynoi a dadansoddi tystiolaeth i lywio gofynion adrodd sy'n cyflawni rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys o dan Adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) ac i OSPAR ar reoli MPAau yn effeithiol.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A14.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 4.</p>	Llywodraeth Cymru, CNC a JNCC	<p>Cydlynwyd adroddiad y DU ar asesu effeithiolrwydd rheoli gan y JNCC ac fe'i cyflwynwyd i gomisiwn OSPAR ar 28 Medi 2018.</p> <p>Cyflwynwyd yr adroddiad o dan Adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Ionawr 2019¹⁰.</p>	Mae gwybodaeth am gyflwr ein rhwydwaith o MPAau ac am effeithiolrwydd rheoli safleoedd OSPAR Cymru bellach ar gael mewn fformat hygyrch.

¹⁰ www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld12056/gen-ld12056-w.pdf

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
15	<p>Archwilio sut y gellir cymhwyso canlyniadau o brosiectau peilot ar llygredd gwasgaredig ac atmosfferig yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau, Morol Sir Benfro ac Aber Afon Hafren ar draws y rhwydwaith.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A20.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli): 4 a 5.</p> <p>Gellir cael mynediad at adroddiad llawn i'r Grŵp Llywio ar weithgareddau lleol o fewn Safleoedd Morol Ewropeaidd trwy wefan Llywodraeth Cymru¹¹.</p>	CNC a Grwpiau Awdurdod Perthnasol (RAG)	<p>Mae amryw o'r safleoedd yn treialu prosiectau i ddeall yn well effeithiau llygredd dŵr gwasgaredig a llygredd atmosfferig ar nodweddion MPAau.</p> <p>Cam gweithredu a ddygwyd drosodd, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 11.</p>	Bydd dysgu o'r prosiectau'n cael ei gymhwyso i'r rhwydwaith, lle bo hynny'n briodol ac yn bosibl.

¹¹ llyw.cymru/y-diweddaraf-am-grwpiau-awdurdodau-perthnasol-cymru-2018-19

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
16	<p>Prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A16.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 1.</p>	Llywodraeth Cymru a CNC	<p>Cyflwynodd cam cyntaf y prosiect hwn gronfa ddata tystiolaeth yr aseswyd ei hansawdd ac adroddiad a oedd yn nodi bylchau allweddol yn y dystiolaeth.</p> <p>Mae'r adolygiad o Borth Cynllunio Morol Cymru wedi'i gwblhau, a nodwyd argymhellion ar gyfer gwelliannau. Bydd y porth yn ffordd allweddol o gael gafael ar dystiolaeth a'i dehongli er mwyn cefnogi cynlluniau morol a'r gwaith o'u rheoli.</p> <p>Cam gweithredu a ddygwyd drosodd, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 12.</p>	Bydd gwella mynediad at ddata a gwybodaeth berthnasol, canllawiau lleoliadol a dulliau penderfynu yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer yr amgylchedd morol, gan gynnwys MPAau, ac yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy y sectorau hyn.
17	<p>Datblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol, gan ddysgu o brosiectau sy'n bodoli eisoes.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A17.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 1,3,4,5.</p>	CNC a swyddog Grŵp Awdurdod Perthnasol Pen Llŷn a'r Sarnau	<p>Diweddarau setiau data ar gyfer y gweithgareddau canlynol y gwyddom eu bod yn gweithredu fel llwybrau ar gyfer cyflwyno a lledaenu INNS:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dyframaeth; • Cychod hamdden; • Llongau. <p>Mae cyllid EMFF wedi'u sicrhau i ddarparu cynllun bioddiogelwch peilot ar gyfer Pen Llŷn a'r Sarnau (dyddiad cychwyn y prosiect: Ebrill 2019).</p> <p>Camau gweithredu a ddygwyd drosodd, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 13.</p>	Yn y tymor hwy, bydd cynllunio bioddiogelwch effeithiol ar gyfer y rhwydwaith o MPAau yn helpu i reoli effeithiau posibl rhywogaethau estron goresgynnol morol ar gyflwr nodweddiol gwarchoddedig.

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
18	<p>Datblygu canllawiau cyson a chymesur i wella'r canllawiau ar waith achos ac i gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru.</p> <p>Ceir manylion pellach am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A18.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 2,3.</p>	CNC a JNCC	<p>Mae'r canllawiau a ddatblygwyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Canllawiau i gynorthwyo ymgeiswyr i baratoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer asesiadau amgylcheddol e.e. canllawiau ar setiau data benthig sydd gan CNC, arolwg benthig a chynaeafu gwymon; • Canllawiau ar gymhwyso'r rheoliadau newydd sy'n llywodraethu Asesiadau Effaith Amgylcheddol; • Canllawiau sy'n egluro ymhellach y broses o ymgeisio am drwyddedau morol. <p>Mae gan y JNCC wybodaeth am weithgareddau ar gyfer pob MPA yn ei dudalennau gwybodaeth am safleoedd ar ei wefan.</p> <p>Cam gweithredu parhaus, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 14.</p>	Bydd canllawiau cyson a chymesur yn cefnogi penderfyniadau gwell a fydd yn helpu i wella diogelwch gwaith rheoli ac yn helpu i gynnal cyflwr ein MPAAu a'u gwella lle bo hynny'n briodol.

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
19	<p>Mynd i'r afael ag effeithiau gwasgfa arfordirol ar MPAAu.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A19.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at Egwyddor(ion) Rheoli: 1,2,3,4,5.</p>	CNC a Llywodraeth Cymru	<p>Cynhyrchwyd tystiolaeth i ddeall natur a maint y wasgfa arfordirol¹² ar nodweddion cynefinoedd arfordirol MPAAu (y tu allan i ofynion digolledu a ragwelir o waith sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol) yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.</p> <p>Gwaith monitro parhaus ar gynefinoedd arfordirol a grëwyd yn 2014 (trwy'r Rhaglen Creu Cynefinoedd Cenedlaethol, NHCP) yn ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (Cwm Ivy, Gogledd Gŵyr).</p> <p>Gweithredu parhaus, gweler 2019-2020 cynllun gweithredu, cam gweithredu 15.</p>	<p>Bydd y dystiolaeth yn helpu i gynnal trafodaeth ar sut i wrthbwysu colli gwasgfa arfordirol y tu allan i'r NHCP er mwyn helpu i gynnal cyfanrwydd y rhwydwaith o MPAAu.</p> <p>Mae'r gwersi a ddysgwyd o greu cynefinoedd Cwm Ivy yn llywio'r broses barhaus o gyflawni prosiectau creu cynefinoedd er mwyn darparu cynefin arfordirol digolledu ar gyfer y cynefinoedd y rhagwelir y byddant yn cael eu colli yn sgil gwaith sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.</p> <p>Wrth i'r cynefin ddatblygu, mae'r ardal o forfa heli yng Nghymru yn cynyddu ac, yn y tymor hwy, gellid ystyried y cynefin newydd hwn i'w gynnwys yn y rhwydwaith o MPAAu er mwyn helpu i gynnal cydlyniad.</p>

¹²Ystyr gwasgfa arfordirol yw colli cynefinoedd naturiol o ganlyniad i strwythurau neu gamau pobl sy'n atal symudiad y cynefinoedd hynny a fyddai'n digwydd yn naturiol fel arall mewn ymateb i gynnydd yn lefel y môr (SLR), o bosibl ar y cyd â prosesau arfordirol eraill. Mae gwasgfa arfordirol yn lleihau arwynebedd cynefin ar ochr y môr i'r strwythurau presennol.

#	Cam Gweithredu	Awdurdodau Rheoli Arweiniol	Allbynnau * cam gweithredu parhaus: e.e. proses neu weithgarwch parhaus, megis cydsynio. * cam gweithredu a ddygwyd drosodd: e.e. tasg neu brosiect â dyddiad cwblhau diffiniedig.	Canlyniadau (Gwirioneddol a Disgwyliedig)
20	<p>Cynnal cysylltiadau rhwng Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith a chamau gweithredu a gytunwyd yn lleol, lle bo'r rhain yn bodoli, a chefnogi'r gwaith o edrych am gyfleoedd ariannu.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad A20.</p> <p>Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfrannu at amryw o'r Egwyddorion Rheoli, gan gynnwys egwyddorion 4 a 5.</p> <p>Gellir cael mynediad at adroddiad llawn i'r Grŵp Llywio ar weithgareddau lleol o fewn safleoedd morol Ewropeaidd trwy wefan Llywodraeth Cymru¹³.</p>	Grwpiau Awdurdod Perthnasol	<p>Mae swyddog ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn aelod o'r Grŵp Llywio fel cynghorydd y Swyddog Safle Morol Ewropeaidd (EMSO). Mae wedi mynychu cyfarfodydd ac wedi cysylltu ag EMSOs eraill i gyfrannu at waith y Grŵp Llywio.</p> <p>Mae aelodau eraill o'r Grŵp Llywio wedi cyflawni gwaith cyswllt lleol hefyd trwy eu rolau fel aelodau o Grŵp Awdurdod Perthnasol (RAG).</p> <p>Cam gweithredu parhaus, gweler Cynllun Gweithredu 2019-2020, Cam gweithredu 16.</p>	Sicrhau cysylltiadau a chyswllt rhwng camau gweithredu lefel rhwydwaith a gweithgarwch rheoli MPAau lleol.

¹³ llyw.cymru/y-diweddaraf-am-grwpiau-awdurdodau-perthnasol-cymru-2018-19

Tabl 2

Camau gweithredu ychwanegol y tu allan i'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru 2018-2019

Mae'r wybodaeth yn y tabl canlynol wedi'i chrynhoi yn dilyn cais am wybodaeth trwy Grŵp Cynghori a Gweithredu Morol Cymru. Mae'r tabl yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, fel yr adroddwyd yn uniongyrchol gan y sefydliadau arweiniol a enwir, ar gamau rheoli a gyflawnwyd yn ystod 2018-2019, ynghyd â'r camau gweithredu â blaenoriaeth a nodwyd gan y Grŵp Llywio. Nid yw'r camau gweithredu hyn wedi cael eu sgrinio na'u blaenoriaethu gan y Grŵp Llywio, ond maent yn ategu ei gilydd ac yn adlewyrchu ehangder gweithgareddau rheoli MPAAu sy'n cael eu cynnal gan amrywiaeth o sefydliadau. Ategir Tabl 2 gan drosolwg manylach o bob cam gweithredu yn Atodiad B.

Cam Gweithredu	Sefydliad Arweiniol	Allbynnau	Canlyniadau
<p>Casglu data am gyflwr a bioamrywiaeth mewn 20 o safleoedd llongdrylliad o amgylch arfordir Cymru gyda chysylltiadau arwyddocaol â'r Rhyfel Mawr.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad B1.</p>	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	Data arolwg ecolegol yn cael ei rannu ar wefan iRecord, a ddatblygwyd ar ran y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.	Cryfhau'r sail dystiolaeth i lywio'r gwaith o reoli MPAAu.
<p>Prosiect LIFE Môr-wenoliaid ffrwynog. Mae'r prosiect yn gwella'r gwaith rheoli presennol yn y Moelrhoniaid, o fewn AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn, trwy fynd i'r afael â bygythiad ysglyfaethwyr mamalaidd a chychwyn mesurau bioddiogelwch i gadw'r ynysoedd yn ddiogel. Mae'r prosiect yn darparu staff ychwanegol, gwaith monitro a gwaith rheoli cynefinoedd hefyd.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad B2.</p>	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)	<p>Yn ystod 2018, llwyddodd môr-wenoliaid ffrwynog i ddeor cywion yn y safle am y tro cyntaf ers 2006.</p> <p>Amryw o adroddiadau: http://roseatetern.org/index.html</p>	Mae'r prosiect yn parhau.

Cam Gweithredu	Sefydliad Arweiniol	Allbynnau	Canlyniadau
<p>Taith flynyddol i ryddhau huganod sydd wedi'u dal mewn plastig ar yr ynys a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.</p> <p>Prosiect parhaus i astudio ardaloedd twrio am fwyd a ddefnyddir gan huganod o AGA Gwales, a defnyddiwyd astudiaeth ailfarcio i amcangyfrif goroesiad huganod o un tymor i'r nesaf.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad B3.</p>	<p>RSPB Prifysgol Caerwysg – ymchwil</p>	<p>Data ar batrymau twrio am fwyd a mudo huganod.</p> <p>Defnyddir tystiolaeth i amcangyfrif goroesiad huganod o un tymor i'r nesaf.</p> <p>Cyhoeddiadau ymchwil.</p>	<p>Mae'r prosiect yn parhau,</p> <p>Arweiniodd y daith flynyddol i ryddhau adar a oedd wedi'u dal mewn plastig ym mis Hydref 2018 at ryddhau 18 o adar. Ers dechrau'r ymweliadau mis Hydref rheolaidd yn 2005, mae 667 o adar wedi'u rhyddhau.</p>
<p>Prosiect LIFE Môr-wenoliaid bach (ffocws ar dwyni Gronant yng Nghymru). Nodau'r prosiect yw gwella'r gwaith o reoli ac adfer/creu cynefinoedd, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am y materion cadwraeth sy'n wynebu môr-wenoliaid bach, yn enwedig yn y cymunedau lleol sy'n agos at y safleoedd presennol a phosibl a chynhyrchu Cynllun Adfer Rhywogaeth môr-wenoliaid bach.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad B4.</p>	<p>RSPB Cytref Gronant – Cyngor Sir Ddinbych</p>	<p>Cynllun Adfer Rhywogaeth Môr-wenoliaid Bach y DU.</p>	<p>Cychwynnodd y prosiect yn 2013 a daeth i ben yn 2018. Yn ystod y cyfnod hwnnw, nifer cymedrig y paruau bridio môr-wenoliaid bach yn nhwyni Gronant oedd 146, gyda 171 o baruau bridio wedi'u cofnodi yn 2018. Mae hyn yn gynydd o 121 rhwng 2009 a 2013.</p>
<p>Codi ymwybyddiaeth a monitro aflonyddwch o Warchodfa Ynys Lawd.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad B5.</p>	<p>RSPB</p>	<p>Codi ymwybyddiaeth i osgoi aflonyddwch; ar y warchodfa, mae gennym 200 o bobl y dydd yn cymryd rhan mewn arforgampau a hyd at 19 o gychod pleser yng nghyffiniau clogwyni'r môr rhwng mis Ebrill a mis Medi.</p>	<p>Mae'r prosiect yn parhau.</p>

Cam Gweithredu	Sefydliad Arweiniol	Allbynnau	Canlyniadau
<p>Prosiect Biosecurity for LIFE. Bydd y prosiect yn gweithio i sicrhau bod poblogaethau adar môr pwysig ynysoedd y DU yn cael manau diogel i fridio a meithrin cydnerthedd tymor hir o ystyried y bygythiadau sylweddol eraill. Bydd hefyd yn ceisio sicrhau bod cymunedau ynysoedd yn cymryd rhan yn y gwaith o weithredu mesurau bioddiogelwch llwyddiannus a'u bod yn ganolog i'r gwaith hwnnw. Mae gan y prosiect uchelgeisiau ehangach hefyd i wella mynediad at wybodaeth ledled Ewrop am arfer gorau o ran bioddiogelwch ynysoedd.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad B6.</p>	RSPB	<p>Cychwynnodd y prosiect yn 2018 a chafodd ei lansio'n swyddogol yn 2019. Bydd yn parhau tan 2022. Dyma'r allbynnau a'r canlyniadau disgwylidig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso'r mesurau bioddiogelwch presennol sydd ar waith ar ynysoedd yn Ardal y Prosiect; • Hyfforddiant, cyngor a chymorth i gymunedau ynysoedd, rheolwyr ac ymarferwyr perthnasol eraill i sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i ysgrifennu cynlluniau bioddiogelwch; • Datblygu a chyflwyno cyrsiau hyfforddi ar gyfer prif gynulleidfaoedd targed ynysoedd, gan gynnwys rheolwyr, cymunedau, busnesau ac awdurdodau ynysoedd; • Recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr; • Goruchwyllo'r broses o ddarparu cyfarpar a deunyddiau bioddiogelwch i fodloni gofynion y cynllun bioddiogelwch (bydd hyn yn cynnwys cael ci synhwyro cnofilod); • Monitro AGA ynysoedd adar môr am bresenoldeb ysglyfaethwyr, yn unol â'r cynlluniau bioddiogelwch; • Ymgysylltu â'r gymuned ehangach trwy gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am fioddiogelwch ledled y DU, gan greu llwybrau arddangos ar dair AGA a gweithio gyda phlant ysgol; • Gweithio gyda sefydliadau ar draws Ewrop i ddatblygu'r EBIRAG a chreu cyfrwng ar gyfer dysgu traws-sefydliadol. 	<p>Mae'r prosiect yn parhau ac mae'n ceisio sicrhau bod poblogaethau adar môr pwysig ynysoedd y DU yn cael manau diogel i fridio a meithrin cydnerthedd tymor hir o ystyried y bygythiadau sylweddol eraill.</p>

Cam Gweithredu	Sefydliad Arweiniol	Allbynnau	Canlyniadau
<p>Arolygon gwyddor dinasyddion SeaSearch.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad B7.</p>	<p>Y Gymdeithas Cadwraeth Forol</p>	<p>Derbyniwyd cyfanswm o 118 o ffurflenni Seasearch ar gyfer deifiau yn 2018. Mae'r holl ddata wedi'i fewnbynnu i'r Cofnodydd Morol, wedi'i rannu gyda CNC ac wrthi'n ymddangos ar Atlas NBN (gyda chofnodion rhywogaethau sensitif yn aneglur). Bydd adroddiad cryno ar gael yn fuan ar wefan Seasearch.</p>	<p>Gwell tystiolaeth a data sy'n dangos tueddiadau tymhorol ar gyfer amryw o rywogaethau mewn safleoedd deifio ledled Cymru.</p>
<p>Deall effaith gweithgareddau ar ddyfroedd arfordirol. Mae rhaglen fuddsoddi bresennol Dŵr Cymru (2015-2020) yn cynnwys rhaglen fawr o ymchwiliadau i wella dealltwriaeth y cwmni o'r effaith y mae ef ac eraill yn ei chael ar ddyfroedd arfordirol Cymru, yn enwedig dyfroedd ymdrochi a physgodfeydd cregyn. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu mewn cydweithrediad agos â CNC.</p>	<p>Dŵr Cymru</p>	<p>Bydd y data a gesglir trwy'r rhaglen yn gwella'r sail dystiolaeth sy'n ymwneud â'r effaith gymharol mae gwahanol sectorau yn ei chael ar ddyfroedd arfordirol. Mae Dŵr Cymru wedi rhannu'r canlyniadau dilynol gyda CNC.</p>	<p>Helpu i sicrhau bod yr ymdrech reoleiddio a'r buddsoddiad mewn perthynas â gwelliannau yn cael eu targedu'n dda.</p>
<p>Plastigau yn yr amgylchedd dyfrol. Ar gais Dŵr Cymru, mae cangen ymchwil diwydiant dŵr y DU, UKWIR, yn ymchwilio i amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â phlastigau sy'n berthnasol i'r sector.</p> <p>Ceir rhagor o fanylion am y cynnydd o ran cyflawni'r cam gweithredu hwn yn Atodiad B8.</p>	<p>Dŵr Cymru ac UKWIR</p>	<p>Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn gwella'r ddealltwriaeth o dynged microblastigau a nanoblastigau sy'n mynd i mewn i garthffosydd cyhoeddus. Er nad yw'n canolbwyntio'n benodol ar yr amgylchedd morol, dylai'r ymchwil wneud cyfraniad defnyddiol at y corff cynyddol o wybodaeth am darddiad a maint y broblem plastigau yn yr amgylchedd dyfrol yn ei gyfanrwydd.</p>	<p>Helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar y mesurau sydd eu hangen i leihau plastigau yn yr amgylchedd dyfrol, gan gynnwys y môr.</p>

Atodiad A

Rhagor o fanylion am hynt y camau rheoli unigol yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019

Atodiad A1

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Datblygu dull o gynnal asesiadau gwell a chyfnodol o gyflwr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAs). (Cam gweithredu 1)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Nod y prosiect hwn yw datblygu dangosyddion a phroses ar gyfer adrodd ar gyflwr nodweddion sy'n cael eu gwarchod o fewn y rhwydwaith o MPAs yng Nghymru. Mae CNC wedi sicrhau grant Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) i gyflawni'r gwaith.

Caiff y gwaith hwn ei gwblhau ym mis Mawrth 2022 ac mae'n cynnwys yr holl MPAs yng Nghymru, er y bydd rhan EMFF y prosiect yn canolbwyntio ar nodweddion safleoedd Ewropeaidd; bydd y dull o weithredu yn berthnasol i'r holl MPAs.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Allbynnau cychwynnol (2018/2019):

- Adolygiad o'r holl ddata sydd ar gael yn nyfroedd Cymru y gellid ei ddefnyddio ar gyfer asesiadau o gyflwr nodweddion (a gyhoeddir ar wefan CNC);
- Adolygiad o'r defnydd o elfennau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn asesiadau o gyflwr nodweddion (adroddiad); a
- Dyfarnwyd grant llwyddiannus ar gyfer EMFF i CNC a chychwynnodd y prosiect yn swyddogol ym mis Hydref 2018.

Canlyniad disgwyliedig:

Bydd asesu ac adrodd ar gyflwr nodweddion ein rhwydwaith mewn modd amserol yn llywio'r gwaith rheoli'n well ac yn canolbwyntio'r blaenoriaethau.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	Bydd gallu cynhyrchu asesiadau cyflwr amserol ar lefel safle yn helpu rheoleiddwyr a datblygwyr i wneud penderfyniadau gwell yn ystod y broses reoleiddio.
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	Y dull fydd cyngor CNC ar sut y dylid cynnal asesiadau o gyflwr gan ganolbwyntio ar fod yn broses glir a chyson.
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae'n hanfodol cael dull ffurfiol, clir ac amserol ar gyfer asesiadau o gyflwr.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Gall gwybodaeth dda ac amserol am gyflwr nodweddion helpu i flaenoriaethu camau rheoli.

Atodiad A2

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Rheoli MPAs trwy brosesau asesu a chydsynio rheoleiddiol (Cam gweithredu 2)
Sefydliad arweiniol:	Pob Awdurdod Rheoli

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Mae Awdurdodau Rheoli yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at sefydliadau â chyfrifoldebau statudol ar y cyd mewn perthynas ag unrhyw fath o MPA, neu sy'n berchnogion tir arfordirol neu wely'r môr sylweddol. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau perthnasol a chymwys fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth (2017) ac awdurdodau cyhoeddus fel y'u diffinnir yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009).

Mae Awdurdodau Rheoli'n rheoli MPAs trwy brosesau asesu a chydsynio rheoleiddiol yn bennaf, ac mae'r prosesau hyn yn elfen sylweddol o'r gwaith. Mae'r cam gweithredu hwn yn ymwneud â gwaith i asesu effeithiau gweithgareddau ar MPAs cyn i gydsyniadau gael eu cyhoeddi, neu cyn i benderfyniad arall sy'n galluogi gweithgarwch gael ei wneud, i helpu i atal effeithiau negyddol, i sicrhau amcanion cadwraeth MPAs ac i sicrhau manteision ehangach i'r rhwydwaith.

Mae'r gwaith hwn yn barhaus ac mae'r adrannau isod yn darparu trosolwg o'r awdurdodau rheoli allweddol a'r prosesau asesu a/neu gydsynio rheoleiddiol y maent yn eu darparu.

Llywodraeth Cymru

- Rheoli pysgodfeydd y glannau (pysgodfeydd masnachol a hamdden) (0-6 fôr-filltir) a pysgodfeydd ym Mharth Cymru (yr ardal y tu hwnt i 12 fôr-filltir o'r lan).
- Rôl reoleiddiol (awdurdod cymwys) o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (Rheoliadau 2017), yn ymgynghori â CNC fel Corff Cadwraeth Natur Statudol trwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).
- Caniatáu Gorchmynion Rheoleiddio ar gyfer Pysgodfeydd Cocos Cilfach Tywyn ac Aber Afon Dyfrdwy, a reolir gan CNC.
- Cyhoeddi Gorchmynion i atal difrod i rywogaethau penodol, neu amod a chyfyngiadau ar ddeiliad y gorchmyn.
- Cynnwys mewn Trwyddedau Morol:
 - Yr ymgynghorir â thîm Gweithrediadau Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â cheisiadau am Drwyddedau Morol
 - Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio gweithgareddau ar gyfer Trwyddedau (CNC) a roddir i sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau Trwyddedau ac i gychwyn gweithgarwch gorfodi yn ôl y gofyn.
- Cydsyniad ynni ar y môr ar gyfer prosiectau 1-350MW – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

- Trwyddedu morol – Mae CNC yn benderfynwr allweddol yn yr ardal Forol trwy ei ddyletswyddau fel Awdurdod Trwyddedu Morol, gan weithredu ar ran Gweinidogion Cymru. Wrth bennu ceisiadau am Drwyddedau Morol, mae CNC yn ystyried amryw o bethau, gan gynnwys yr angen i ddiogelu'r amgylchedd, ac yn cynnal HRA i ystyried effeithiau posibl datblygiad ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd.
- Rheoli a rheoleiddio pysgodfeydd cocos yn unol â gofynion Rheoliadau 2017 mewn perthynas â rolau rheoleiddiol (awdurdod cymwys) a chynghorol (Corff Cadwraeth Natur Statudol) CNC.
 - Pysgodfa Gocos Cilfach Tywyn yn unol â Chynllun Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Gocos Cilfach Tywyn 1965 (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013)
 - Pysgodfa Gocos Aber Afon Dyfrdwy (gydag Asiantaeth yr Amgylchedd) yn unol â Chynllun Rheoli Gorchymyn Unigol a Rheoleiddiol Pysgodfa Gocos Dyfrdwy (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015)
- Rheoli pysgodfeydd ar gyfer pysgod mudol a dŵr croyw e.e. genweirio hamdden.
- Rhoi cydsyniad i waith diogelu'r arfordir.
- Gweithgareddau sy'n gofyn am gydsyniadau mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu yn eu hymyl.
- Trwyddedu Rhywogaethau Morol a Warchodir gan Ewrop.
- Ansawdd dŵr, gan gynnwys trwyddedau amgylcheddol ar gyfer gollyngiadau a draenio tir.
- Rheoli Llwybr Arfordir Cymru (ynghyd ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol).

Awdurdodau Rheoli Eraill:

- Mae gan Awdurdodau Harbwr gyfrifoldebau rheoli dros borthladdoedd a dyfroedd arfordirol o fewn eu ffiniau.
- Mae gan Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol bob math o gyfrifoldebau e.e. twristiaeth gan gynnwys hamdden arfordirol, hawliau tramwy cyhoeddus, cynllunio defnydd tir a datblygiad ar arfordiroedd ac aberoedd i lawr i ddŵr isel cymedrig.
- Mae'r Adran Drafnidiaeth yn gyfrifol am bolisi ar fordwyo a diogelwch morwrol. Mae'n gyfrifol hefyd am bolisi yn ymwneud â Phorthladdoedd Ymddiriedolaeth a Gedwir yn ôl (e.e. Aberdaugleddau).
- Mae Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn gyfrifol am gydsyniadau diogelwch llongau, gan gynnwys ardystio morwyr a chyfarpar.
- Mae'r Awdurdod Olew a Nwy yn gyfrifol am drwyddedu ar gyfer canfod a manteisio ar gronfeydd olew a nwy.
- Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn gyfrifol am weithgareddau yn ymwneud ag olew a nwy.
- Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi cydsyniad i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol dros 350MW sy'n gofyn am Orchymnion Cydsyniad Datblygu, o dan Ddeddf Cynllunio 2008.
- Mae Ystad y Goron, fel perchennog a rheolwr gwely'r môr, yn caniatáu hawliau tiffeddianwyr i'r rhai sydd eisiau ymgymryd â gweithgareddau sy'n rhyngweithio â gwely'r môr, ac mae arfer yr hawliau hynny'n amodol ar gael yr holl gydsyniadau angenrheidiol. Mae'n berchen ar rannau o flaendraeth Cymru hefyd, ac yn rheoli'r ardaloedd hynny rhwng dŵr uchel cymedrig a dŵr isel cymedrig yn yr un modd.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Mae trafodaeth wedi cychwyn ar y ffordd orau o grynhoi'r cynnydd gan bob Awdurdod Rheoli yn erbyn y cam gweithredu hwn ar gyfer y fersiynau o'r Adroddiad Blynyddol yn y dyfodol ond, yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, mae'r canlyniadau'n cynnwys:

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 15 o esemptiadau deddfwriaeth pysgodfeydd ar gyfer gwahanol fathau o ymchwil wyddonol. Roedd 10 o'r esemptiadau hyn yn gofyn am HRA, a gadarnhaodd na fyddai'r esemptiadau'n cael unrhyw effaith ar rywogaethau a chynefinoedd gwarchoddedig;
- Gwnaeth CNC benderfyniad ar 55 o Drwyddedau Morol, ac mae'r effeithiau posibl ar MPAs wedi'u hystyried ym mhob un o'r penderfyniadau hyn ac mae mesurau lliniaru priodol wedi'u cynnwys fel amod yn y Trwyddedau Morol lle mae angen hynny.

Bydd CNC yn parhau i sicrhau bod penderfyniadau rheoleiddio yn ystyried yr effaith y gall gweithgarwch ei chael ar y rhwydwaith MPA. Unwaith i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru gael ei fabwysiadu, bydd cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cynllun Morol yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch y drwydded forol.

Yn ogystal, fel ymgynghorai statudol, mae CNC yn cynghori ar yr effaith bosibl ar yr amgylchedd, gan gynnwys cyngor yn ymwneud â HRA ar gynlluniau strategol sy'n hyrwyddo datblygiad y diwydiant morol. Wrth ymgysylltu â'r cynlluniau hyn, mae CNC yn ceisio sicrhau bod datblygiadau prosiect a fydd yn dod i'r amlwg yn datblygu yn y ffordd iawn ac yn y lle iawn yn nyfroedd Cymru. Mae enghreifftiau yn 2018/19 yn cynnwys cyngor a ddarparwyd i Ystad y Goron ar gynlluniau ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y môr a chloddio am agregau a chynghori i Lywodraeth y DU (BEIS) ar HRA y 31ain cylch trwyddedu ar gyfer olew a nwy ar y môr. Mae cynlluniau Ystad y Goron ar gyfer ynni gwynt ar y môr wedi esblygu'n sylweddol, gyda'r ardal chwilio yn canolbwyntio bellach ar ardaloedd sy'n llai sensitif o ran datblygu, yn rhannol oherwydd y cyngor a ddarparwyd gan CNC trwy'r broses HRA.

Pysgodfeydd Cocos a reolir gan CNC: mae cynlluniau rheoli a chynigion rheoli arferol, gan gynnwys agoriad blynyddol y pysgodfeydd a'r ddalfa fwyaf a ganiateir (TAC), yn amodol ar HRAs yn unol â Rheoliad 63 o Reoliadau 2017. Mae asesiadau o'r fath yn ystyried goblygiadau ar gyfer nodweddion MPA o ystyried eu hamcanion cadwraeth, a dim ond os gellir pennu na fyddant yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd y cytunir i gynlluniau a chynigion o'r fath. Mae unrhyw nodweddion SoDdGA perthnasol yn cael eu hystyried a'u cynghori fel rhan o'r broses hon hefyd.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Ydy	Mae'r egwyddor rheoli hon yn ymwneud â chynllunio strategol a defnydd cynaliadwy o'r rhwydwaith MPA; mae prosesau asesu a chydysnio rheoleiddiol yn bwysig iawn ar gyfer defnydd cynaliadwy o'n MPAs yng Nghymru.
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	Mae'r cam gweithredu hwn yn cyfateb i'r egwyddor rheoli hon gan ei fod yn ymwneud â phrosesau asesu a chydysnio rheoleiddiol.
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae rhan o'r broses reoleiddiol yn gallu cynnwys casglu gwybodaeth gan ddatblygwyr ac adroddiadau ar ôl cael cydsyniad; gall hyn gael ei ddefnyddio i ddeall cyflwr, ond nid dyma brif ddiben y cam gweithredu hwn.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Nid yw'r cam gweithredu hwn yn gwbl berthnasol i'r egwyddor rheoli hon, ond mae angen i lawer o gamau rheoli ehangach fynd trwy broses asesu neu gydsynio reoleiddiol, sy'n bwysig i sicrhau nad yw'r camau rheoli hyn yn effeithio'n andwyol ar nodweddion ein MPAs.

Atodiad A3

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Gwella hygyrchedd data monitro morol. (Cam gweithredu 3)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Mae'r gwaith wedi cynnwys casglu a chofnodi data monitro morol yng nghronfa ddata'r Cofnodydd Morol er mwyn cynyddu hygyrchedd data monitro morol. Mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar yr holl ddata monitro gwaddodion ers 2014, yr holl ddata monitro gwaddodion gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ers 2007 a'r holl ddata ar riffiau ers 2010.

Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei gwblhau erbyn Mawrth 2020.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Bydd y canlyniad terfynol yn llywio asesiadau o MPAs ac yn caniatáu i'r wybodaeth gael ei defnyddio gan eraill mewn prosiectau/gwaith ymchwil, gan wella'r sylfaen dystiolaeth forol gyffredinol.

Camau wedi'u cwblhau hyd yn hyn:

Mae'r broses o fonitro data o 2015, 2016 a 2017 ar gyfer nodweddion gwaddod islanw ACA ar draws dyfroedd Cymru wedi'i sicrhau o ran ansawdd ac wedi'i chofnodi ar y Cofnodydd Morol. Mae'r data a gofnodir yn cynnwys ffawna gwaddod a gronynmetreg gwaddodion. Mae dosbarthiad biotop wedi'i bennu ar gyfer pob sampl biolegol, ac mae'r rhain wedi'u cofnodi hefyd. Roedd y cynefinoedd a gofnodwyd yn cynnwys:

2015: 5 morlyn arfordirol, 3 aber, 1 bae

2016: 5 morlyn arfordirol, 6 banc tywod, 8 bae, 1 ymchwiliad bae

2017: 5 morlyn arfordirol, 8 bae, 1 banc tywod

Mae'r data bellach ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer dadansoddi ac adrodd ar newid amgylcheddol.

Camau i'w cwblhau:

Bwriedir cofnodi rhagor o ddata yn ystod ail hanner 2019/20 a'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2020. Bydd hyn yn cwmpasu gwaddodion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a data rîff yr islanw.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae casglu data yn bwysig ond rhaid iddo fod ar gael er mwyn iddo fod o ddefnydd i reolwyr.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Gall gwybodaeth dda ac amserol am gyflwr nodweddion helpu i flaenoriaethu camau rheoli.

Atodiad A4

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Datblygu ymhellach a chyflwyno rhaglen monitro forol ar sail risg ar draws y rhwydwaith o MPAs. (Cam gweithredu 4)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Llywodraeth Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac arbenigwyr polisi a gwyddoniaeth eraill i ddatblygu rhaglen fonitro integredig a chost effeithiol er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau gwarchod natur, darparu'r dystiolaeth i asesu a chanfod tueddiadau ym maes iechyd ac amrywiaeth fiolegol ein moroedd ac i danategu rheolaeth gynaliadwy o'n hadnoddau naturiol. Bydd y gwaith monitro hwn yn cwmpasu sbectrwm llawn ein hecosystemau morol, o fewn a thu allan i'n MPAs, a bydd yn cael ei gydgyssylltu ar draws pedair gwlad y DU.

Mae hwn yn gam gweithredu parhaus y mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn y flwyddyn ariannol 2020-2021.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Cwblhawyd opsiynau ar gyfer cydrannau'r rhaglen ar raddfa'r DU y llynedd ac mae'r rhai ar gyfer cynefinoedd glannau môr Cymru yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd.

Bydd monitro safleoedd yn rhan o'r rhaglen fonitro a bydd yn dilyn dull sy'n seiliedig ar risg gan sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Bydd y rhaglen fonitro yn cynnwys elfennau o fonitro ymchwiliol, gan ddarparu data i'n helpu i ddeall pwysau, effeithiau ac effeithiolrwydd rheoli yn well.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	Bydd y rhaglen fonitro yn darparu'r dystiolaeth i asesu a chanfod tueddiadau yn iechyd ac amrywiaeth fiolegol ein moroedd gan gynnwys yr MPAs. Bydd y dystiolaeth hon yn helpu i lywio cyngor ar statws amcanion cadwraeth.
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Bydd y rhaglen fonitro yn cynnwys elfennau o fonitro ymchwiliol, gan ddarparu data i'n helpu i ddeall pwysau, effeithiau ac effeithiolrwydd rheoli yn well.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Bydd safleoedd monitro ar draws y rhwydwaith yn ffurfio rhan o'r rhaglen fonitro a byddant yn dilyn dull sy'n seiliedig ar risg gan sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Atodiad A5

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Datblygu dull o fireinio amcanion cadwraeth ar gyfer pob MPA yng Nghymru, gan barhau i gyhoeddi canllawiau ar gyfer safleoedd newydd fel y bo angen. (Cam gweithredu 5)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Mae'r cam gweithredu hwn i ddatblygu dull o ddarparu cyngor ar gadwraeth sydd wedi'i dargedu'n well ar gyfer ein nodweddion MPA mewn dyfroedd yng Nghymru, gan sicrhau bod gan safleoedd cyfredol amcanion cadwraeth cyhoeddedig a fydd yn cael eu hintegreiddio i'r dull newydd pan fydd wedi'i ddatblygu.

Cyhoeddi cyngor cadwraeth ar gyfer safleoedd fel y bo angen, a bydd hyn yn barhaus. Contract cychwynnol i ddatblygu dull o weithredu amcanion cadwraeth wedi'u targedu ar gyfer dyfroedd glannau Cymru Medi 2018 – Mawrth 2019. Bydd angen gwaith pellach ar ddatblygu'r cyngor yn becynnau cyngor cadwraeth llawn.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Allbynnau gwirioneddol Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Cyhoeddi amcanion cadwraeth ar gyfer AGA Gogledd Bae Ceredigion;
- Adolygu a chymharu amcanion cadwraeth CNC o'u cymharu â'r rhai a gynhyrchir gan Gyrrff Cadwraeth Natur Statudol eraill; a
- Phroffion senario o wahanol ddulliau ar gyfer amcanion cadwraeth yn y broses Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

Ar gyfer mamaliaid morol, mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwblhau'r Amcanion Cadwraeth ar gyfer safleoedd llamidyddion yn ddiweddar ac mae'r pecynnau cyngor ar ganolfan gwybodaeth safle'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Y 3 safle perthnasol yng Nghymru yw:

- Gorllewin Cymru Forol www.jncc.defra.gov.uk/page-7343
- Gogledd Ynys Môn www.jncc.defra.gov.uk/page-7244
- Dynesfeydd Môr Hafren www.jncc.defra.gov.uk/page-7241

Mae'r Grŵp Mamaliaid Morol Rhyngasiantaethol yn arwain y gwaith o ddatblygu canllawiau pellach, yn bennaf i helpu i ddefnyddio'r amcanion cadwraeth yma ar gyfer Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r grŵp bron wedi llunio canllawiau terfynol o ran asesu sŵn mewn Ardaloedd cadwraeth Arbennig, ac mae CNC yn arwain y gwaith o ddatblygu canllawiau ar gyfer "risg o farwolaeth" (o wrthdrawiadau, er enghraifft). Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi cael y dasg o ddatblygu canllawiau ar gyfer ystyriaethau cynefin/ysglynfaeth.

O ran adar, mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn y broses o ddrafftio Amcanion Cadwraeth Glan Môr Iwerddon, a fydd yn rhoi mwy o fanylion na'r drafft presennol, ac felly bydd yn cysylltu â rhai o'r egwyddorion rheoli, yn benodol:

- Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu;
- Cyngor ac arweiniad ar reoli;
- Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr.

Y canlyniad disgwylidig:

Bydd y gwaith o reoli a gwneud penderfyniadau yn cael ei ategu gan gyngor ac arweiniad eglur a chyson ar MPAs, gan gynnwys eu hamcanion cadwraeth.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	Bydd amcanion cadwraeth yn helpu'r broses reoleiddio gan fod angen asesu gweithgareddau yn erbyn yr amcanion cadwraeth ar gyfer nodweddion MPAs Cymru. Mae angen amcanion cadwraeth wedi'u targedu'n well er mwyn asesu'r gweithgareddau a'u heffeithiau posibl ar nodweddion ein MPAs.
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	Dylid cefnogi penderfyniadau a gweithrediadau rheoli gan gyngor ac arweiniad clir a chyson ar MPAs, gan gynnwys eu hamcanion cadwraeth.
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae'n hanfodol bod gennym amcanion cadwraeth clir, wedi'u targedu, i'w defnyddio er mwyn asesu'r cyflwr yn well.
Rheolaeth ehangach	Nac ydy	

Atodiad A6

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Datblygu Strategaeth Gwarchod Dolffiniaid a Llamidyddion ledled y DU. (Cam gweithredu 6)
Sefydliad arweiniol:	Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Amcanion y Strategaeth yw:

- Nodi gwendidau a'r pwysau perthnasol ar boblogaethau morfilod yn nyfroedd y DU;
- Asesu mesurau a rhwymedigaethau rheoli cyfredol a chyfleoedd i wella;
- Blaenoriaethu'r gwaith o reoli'r pwysau allweddol sy'n peri'r risg fwyaf i gyflawni a/neu gynnal statws cadwraeth ffafriol;
- Cychwyn camau gweithredu newydd, lle bo angen, er mwyn cynnal neu wella statws cadwraeth;
- Gwella dealltwriaeth o statws a thueddiadau'r boblogaeth;
- Hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o boblogaethau morfilod yn nyfroedd y DU; a
- Dod â sefydliadau at ei gilydd i roi'r camau gweithredu ar waith.

Mae hwn yn gam gweithredu parhaus sy'n cwmpasu holl ddyfroedd y DU. Marine Scotland sy'n arwain y gwaith o lunio'r strategaeth, gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru, DEFRA, DAERA, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England a Scottish Natural Heritage.

Disgwylir ymgynghoriad ffurfiol ar y strategaeth yn ddiweddarach yn 2019.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwylidig):

Nod y strategaeth yw sicrhau rheolaeth effeithiol er mwyn cyflawni a/neu gynnal statws cadwraeth ffafriol i naw o'r rhywogaethau morfilod mwyaf cyffredin yn nyfroedd y DU.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Ydy	Mae'r strategaeth ddrafft, sy'n destun ymgynghori o hyd, yn cynnwys camau gweithredu a gynlluniwyd i wella'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r prosesau cydsynio statudol.
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	Mae'r strategaeth ddrafft, sy'n destun ymgynghori o hyd, yn cynnwys camau gweithredu a gynlluniwyd i wella'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r prosesau cydsynio statudol.
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	Mae'r strategaeth ddrafft, sy'n destun ymgynghori o hyd, yn cynnwys camau i wella'r sail dystiolaeth a bydd yn llywio cyngor ar reoli a chadwraeth.
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae'r strategaeth ddrafft, sy'n destun ymgynghori o hyd, yn cynnwys camau gweithredu i flaenoriaethu gofynion ymchwil a gwella'r sail dystiolaeth, a datblygu a gweithredu cynllun monitro effeithiol ar statws cadwraeth y naw math o forfil a geir amlaf yn nyfroedd y DU. Mae pedair o'r rhywogaethau hyn yn digwydd yn gyson yn nyfroedd Cymru.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Mae'r strategaeth ddrafft, sy'n destun ymgynghori o hyd, yn cynnwys camau i reoli pwysau allweddol ar y safle a chyflwr nodweddion ar raddfa rhwydwaith.

Atodiad A7

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Gwneud dadansoddiad o samplau data monitro heb eu casglu er mwyn llywio asesiadau o gyflwr safle. (Cam gweithredu 7)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Bwriad y prosiect yma yw cwblhau'r dadansoddiad o samplau data heb eu casglu er mwyn gwella cywirdeb asesiadau o gyflwr a hyder yn yr asesiadau hyn a llywio penderfyniadau rheoli. Mae'n golygu paratoi, dadansoddi ac adrodd ar ddata monitro. Bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2020. Ar y dechrau, mae wedi cynnwys ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a Morlyn Bae Cemlyn ond bydd yn cynnwys safleoedd eraill yn y flwyddyn i ddod.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Allbynnau cychwynnol:

Dyfarnwyd tri contract i baratoi, dadansoddi ac adrodd ar 12 mlynedd o ddata monitro o Fae Tremadog, rhan o ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae'r adroddiad drafft yn destun adolygiad mewnol ar hyn o bryd cyn ei gyhoeddi yn 2019/20.

Daeth dadansoddiad o samplau heb eu dadansoddi o forlyn Bae Cemlyn o hyd i dystiolaeth bod rhywogaeth nodweddiadol a ddefnyddiwyd i asesu cyflwr y nodwedd yn bresennol, er mai'r gred flaenorol oedd ei bod yn absennol. Mae hyn wedi arwain at ailasesu'r nodwedd o anffafriol i ffafriol a chyhoeddi adroddiad newydd sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan CNC erbyn hyn.

Allbynnau disgwyliedig:

Dyfarnu contractau pellach i baratoi, dadansoddi ac adrodd ar ddata monitro ar gyfer cynefinoedd Morol Atodiad I mawr a chymhleth eraill. Cyhoeddi adroddiadau erbyn 31 Mawrth 2020 (y rhai a gontractiwyd a'r rhai a gynhyrchwyd yn fewnol).

Y canlyniad disgwyliedig:

Bydd gwybodaeth dda ac amserol am gyflwr nodweddion yn helpu i flaenoriaethu camau rheoli.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae casglu data yn bwysig ond mae angen ei ddadansoddi a'i ddehongli er mwyn iddo fod o ddefnydd ar gyfer rheoli.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Gall gwybodaeth dda ac amserol am gyflwr nodweddion helpu i flaenoriaethu camau rheoli.

Atodiad A8

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Asesu a, lle y bo angen, rheoli effaith gweithgareddau pysgota masnachol ar MPAs. (Cam gweithredu 8)
Sefydliad arweiniol:	Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Nod prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru (AWFA) yw darparu asesiadau ar sail tystiolaeth i ddeall ac, os oes angen, i reoli effeithiau rhyngweithiadau gweithgarwch pysgota masnachol cyfrefol a gweithgarwch yn y dyfodol tuag at gynnal/cyflawni cyflwr ffafriol nodweddion Safleoedd Morol Ewropeaidd.

Nod prosiect AWFA yw gwella rheolaeth MPAs lle bo angen, gan wella cyflwr nodweddion y safle. Mae'n gwneud cyfraniad ehangach at iechyd a chydnerthedd ein moroedd hefyd, ac mae'n cefnogi nod Strategaeth Forol y DU i gyflawni Statws Amgylcheddol Da ar draws moroedd y DU.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Mae'r asesiadau "porffor", sy'n mynd i'r afael â'r rhyngweithiadau cynefin/offer risg uchaf, wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi ar wefannau Llywodraeth Cymru a CNC. Bydd y gwaith hwn yn nodi lle mae angen rheoli pysgodfeydd masnachol i ddiogelu'r rhwydwaith o MPAs, cyfrannu at fanteisio'n gynaliadwy ar bysgod y môr a chryfhau cydnerthedd yr amgylchedd morol. Maent hefyd yn cefnogi casgliadau adroddiadau dangosol nodweddion lefel safle a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ionawr 2018.

Mae'r asesiadau Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n weddill yn cael eu datblygu mewn sypiau gyda blaenoriaeth, nodweddion a mathau o offer tebyg. Mae'r 56 asesiad mamaliaid morol nesaf yn mynd rhagddynt; bydd 30 o asesiadau gweithgareddau potio pellach yn cael eu cychwyn nesaf.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'i chynghorwyr cadwraeth natur statudol, CNC, yn cynnal gwerthusiad cynhwysfawr a strwythuredig o'r holl ryngweithio rhwng gweithgareddau pysgota a nodweddion Safleoedd Morol Ewropeaidd yng Nghymru. Defnyddir y sylfaen dystiolaeth hon i lywio'r gwaith o reoli safleoedd a'u nodweddion.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Bydd ymateb rheolwyr Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at sicrhau amodau a statws ffafriol i nodweddion y safle, yn ogystal â chyfrannu at gyflwr a statws ffafriol y rhwydwaith MPAs ehangach. Bydd yr ymateb hefyd yn helpu i gyflawni nodau morol ehangach fel sicrhau Statws Amgylcheddol Da o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

Atodiad A9

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Gweithredu dull o orfodi pysgodfeydd sy'n seiliedig ar risg. (Cam gweithredu 9)
Sefydliad arweiniol:	Llywodraeth Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Mae hwn yn gam gweithredu parhaus i weithredu dull gorfodi morol ar sail risg ac a gaiff ei arwain ar sail gwybodaeth, gan ddefnyddio gwelliannau technolegol i sicrhau ffocws ar weithgareddau pysgodfeydd risg uchel ym mharth Cymru.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Allbwn:

O'r 13 o erlyniadau yn ystod y cyfnod 1/4/2018 – 31/3/2019, roedd 5 yn ymwneud â throeddau o fewn MPAs, gan gynnwys troeddau offer a gofodol. Cyhoeddwyd 2 rybudd swyddogol yn ystod y cyfnod hwn; un yn ymwneud â throedd pysgota cregyn bylchog mewn MPA.

Canlyniad:

Mae gorfodaeth pysgodfeydd (sy'n cynnwys erlyniad) ym mharth Cymru a'i MPAs yn gweithredu fel dull ataliol cryf i helpu i atal gweithgareddau pysgota anghyfreithlon a chyfrannu at amddiffyniad parhaus nodweddion MPA a chyflwr cyffredinol y rhwydwaith.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Ydy	Mae gorfodi pysgodfeydd yng Nghymru yn gweithredu ar sail risg.
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Nac ydy	
Rheolaeth ehangach	Nac ydy	

Atodiad A10

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Prosiect Gwella Cyflwr y Rhwydwaith o MPAs. (Cam gweithredu 10)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Diben cyffredinol y rhaglen waith yw canolbwyntio ymdrech ar heriau rheoli â blaenoriaeth, yn seiliedig ar bwysau a bygythiadau a nodwyd, a datblygu camau gweithredu (1) sydd â'r potensial mwyaf i wella (neu gynnal) cyflwr nodwedddion ar draws y rhwydwaith, neu (2) a fydd yn gwella dealltwriaeth o gysylltiadau rhwng gweithgareddau a chyflwr y nodweddd.

Eleni, cyflawnwyd gwaith i ehangu cylch gwaith y Prosiect Gwella Cyflwr (CIP) MPAs cyfredol er mwyn cynnwys pwysau a bygythiadau â blaenoriaeth ar gyfer SoDdGA o ran gweithio tuag at flaenoriaethu'r rhwydwaith cyfan o MPAs yng Nghymru.

Mae camau gweithredu â blaenoriaeth a ddatblygir trwy'r rhaglen hon yn cael eu cyflwyno fel camau gweithredu ar wahân ar gyfer sgrinio a blaenoriaethu, a darperir cymorth parhaus ar gyfer y prosiectau hynny sydd wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Gweithredu (eleni ac i'r dyfodol). Eleni (2018-2019), mae'r rhaglen wedi cefnogi (ymysg eraill):

- Cam gweithredu 12 – Cam 2 o'r prosiect gweithgareddau anrheoleiddiedig;
- Cam gweithredu 17 – Cynllunio bioddiogelwch ar gyfer ACA Pen Llŷn a'r Sarnau;
- Cam gweithredu 19 – Mynd i'r afael ag effeithiau gwasgfa arfordirol ar MPAs.

Bydd y rhaglen yn parhau i gefnogi'r camau gweithredu parhaus hyn trwy'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019-2010. Bydd y rhaglen yn cefnogi camau gweithredu newydd hefyd i ddarparu prosiect peilot ar bori morfeydd heli ac ansawdd dŵr yn ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (gweler Cam gweithredu 24, Cynllun Gweithredu 2019-2020).

Y flwyddyn ariannol nesaf, bydd y rhaglen waith hon yn:

- ystyried y pwysau a'r bygythiadau a nodwyd ar gyfer safleoedd a ddynodwyd yn ddiweddar (e.e. ACA llamidyddion);
- datblygu a chefnogi gwaith ar draws y 6 maes gwaith â blaenoriaeth (Amaethyddiaeth a Rheoli Tir, a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer SoDdGA yn 2018-19);
- gwella dulliau cyfathrebu a ffyrdd o weithio ar draws meysydd polisi perthnasol;
- datblygu camau gweithredu a sicrhau cyllid lle bo angen i alluogi darpariaeth.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Allbwn:

Mae'r gwaith o grynhoi a dadansoddi data ar y pwysau a'r bygythiadau i nodwedddion a warchodir mewn SoDdGA sy'n rhan o'r rhwydwaith MPA wedi'i gwblhau bellach. Mae allbynnau'n dangos bod y meysydd gwaith â blaenoriaeth a nodwyd yn gynharach trwy'r rhaglen waith hon ar gyfer y Safleoedd Morol Ewropeaidd Cymru yn unig (yn seiliedig ar allbynnau morol y Rhaglen N2K LIFE ar gyfer Cymru) yn berthnasol i lawer o'r SoDdGA hefyd:

- Mynediad a Hamdden
- Rhywogaethau Estron Goresgynnol

- Pysgodfeydd Morol
- Llygredd a Gwastraff
- Materion Rheoli Dŵr

Mae “Amaethyddiaeth a Rheoli Tir” wedi’i nodi fel maes gwaith â blaenoriaeth ychwanegol ar gyfer y prosiect hwn. Mae’r maes llafur hwn yn arbennig o bwysig ar gyfer parthau SoDdGA oherwydd natur arfordirol y safleoedd, gan y gall arferion tir gael effaith niweidiol ar eu cyflwr e.e. gorbori/ tanbori, pori ar forfeydd heli, ymlediad prysgwydd a draeniad.

Y canlyniad disgwyliedig:

Mae’r rhaglen yn canolbwyntio ar heriau rheoli â blaenoriaeth ar draws y rhwydwaith, yn seiliedig ar bwysau a bygythiadau a nodwyd, ac mae’n datblygu a chyflawni camau gweithredu (1) sydd â’r potensial mwyaf i wella (neu gynnal) cyflwr nodweddion ar draws y rhwydwaith, neu (2) a fydd yn gwella dealltwriaeth o gysylltiadau rhwng gweithgareddau a chyflwr y nodwedd i lywio gwaith rheoli.

At ba rai o’r egwyddorion rheoli y mae’r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Ydy	Cynllunio strategol i flaenoriaethu camau gweithredu (amser ac adnoddau) sydd â’r potensial mwyaf i wella neu gynnal cyflwr y rhwydwaith MPAs – gan ystyried y rhwydwaith ehangach (yn hytrach na’r ffocws presennol ar y Safleoedd Morol Ewropeaidd).
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a’u nodweddion, a’r pwysau a bygythiadau y maen nhw’n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae llawer o’r camau a gaiff eu blaenoriaethu drwy Brosiect Gwella Cyflwr MPAs yn canolbwyntio ar ddeall yn well y pwysau a’r bygythiadau ar safleoedd a’u nodweddion er mwyn llywio ymyriadau rheoli. Mae ehangu’r cylch gwaith i’r rhwydwaith MPA llawn yn cynyddu perthnasedd y cam gweithredu hwn.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Mae’r Prosiect Gwella Cyflwr MPAs yn canolbwyntio ar flaenoriaethu camau gweithredu sydd â’r potensial mwyaf i wella/cynnal amodau – a diogelwch rheolaeth. Bydd y prosiect yn mynd ati i geisio ymdrin â heriau rheoli cyffredinol ar draws yr holl rwydwaith.

Atodiad A11

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Gwella mapiau o ehangder a dosbarthiad cynefinoedd morol Atodiad I. (Cam gweithredu 11)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Mae mapiau cynefinoedd yn ddarn o dystiolaeth allweddol sy'n cefnogi rheoli Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (e.e. cyngor ar waith achos) ac asesiadau ac adroddiadau Erthygl 17. Mae'r cam gweithredu hwn yn ymwneud â chasglu data trydydd parti (e.e. data amlbelydr Swyddfa Hydrograffeg y DU) i ddiweddarau mapiau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau â rhaglen waith i ddiweddarau mapiau nodwedd Atodiad I yng Nghymru. Adolygwyd pob map ar gyfer proses asesu ac adrodd Erthygl 17 2018/19, a rhoddwyd diweddariadau lle'r oedd data newydd ar gael (roedd hyn yn cynnwys cofnodion o ddata arolygon a gasglwyd ac/neu a gyfunwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru).

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn partneriaeth â Natural England, wedi bod yn treialu camerâu sonar amledd uchel ar brosiect dadansoddi data o bell ar gyfer rîff *Sabellaria* Aber Afon Hafren. Nod y prosiect yw archwilio effeithiolrwydd camerâu sonar amledd uchel fel teclyn gwireded daear mewn amgylcheddau diwelededd gyda'r bwriad o ddiweddarau mapiau nodwedd Atodiad I rîff *Sabellaria* ar gyfer ACA Aber Afon Hafren.

Mae hwn yn gam gweithredu parhaus heb unrhyw bwynt terfyn penodol gan y bydd data newydd yn ei gwneud yn bosibl i wella ein gwaith mapio yn gyson. Mae hyn yn cynnwys yr holl MPAs.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Allbynnau ar gyfer 2018/19:

Cafwyd diweddariadau i'r haenau nodwedd Atodiad 1 yn 2018 i gefnogi adrodd Erthygl 17. Roedd y prif ddiweddariadau i'r haen rîff islanw Atodiad 1 gan ddefnyddio data amlbelydr (a geir o Swyddfa Hydrograffeg y DU) wedi'i gyfuno â Dadansoddiad Delweddau ar Sail Gwrthrych i ddiffinio graddau'r riffiau yn gywirach mewn rhannau o ACA Sir Benfro Forol. Bydd meysydd riffiau Atodiad I pendant yn cael eu defnyddio i ddiweddarau map cyfun y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (map DU gyfan ar Lefel 3 EUNIS o'r dosbarthiad cynefinoedd sy'n cyfuno data wedi'i fodelu a data arolwg). Defnyddir y map hwn ar draws y DU mewn dadansoddiadau o rwydweithiau'r MPAs.

Cafwyd diweddariadau hefyd i faint gofodol y gwelyau cregyn dilyw yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a dyfroedd cyfagos gan ddefnyddio'r data ochr-sganio sonar diweddaraf. Cynhaliwyd adolygiad o ddata pwyntiau rîff a gedwir yn y Cofnodydd Morol hefyd (yn gysylltiedig â Cham gweithredu 3, Atodiad A3); adolygwyd y set ddata hon yn ddiweddarach gyda chofnodion rîff ychwanegol yn cael eu hychwanegu o arolygon a oedd wedi digwydd ers 2012, gan gynnwys arolygon Cyfoeth Naturiol Cymru o leoliadau riffiau yn cynnwys riffiau biogenig (*Sabellaria spinulosa* a *Modiolus Modiolus*) a riffiau creigiog oddi ar Ynys Môn. Cafodd ffiniau banc tywod yn ACA Aber Afon Hafren eu diweddarau hefyd yn seiliedig ar y dulliau dehongli data diweddaraf (modelau dyrchafiad digidol) gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur/Natural England. Adolygwyd setiau data maint morfeydd heli gan ddefnyddio'r wybodaeth arolwg ddiweddaraf lle'r oedd ar gael. Adolygwyd y data maerl yn Aberdaugleddau hefyd, ac ail-gofnodwyd ei hyd a'i led gan ddefnyddio'r cofnodion data diweddaraf.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y prosiect dadansoddi data o bell ar gyfer rîff Sabellaria Aber Afon Hafren, a dylai mapiau wedi'u diweddarau fod ar gael yn haf 2019.

Canlyniad:

Bydd mapiau gwell yn cefnogi'r gwaith rheoli yn ogystal â gwaith asesu ac adrodd.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	Mae mapiau o hyd a lled a dosbarthiad cynefinoedd morol Atodiad 1 yn helpu'r prosesau rheoleiddio gan y gellir asesu gweithgareddau yn erbyn y wybodaeth lleoliad gorau sydd ar gael.
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	Mae mapiau o hyd a lled a dosbarthiad cynefinoedd morol Atodiad I yn helpu i wella ein cyngor gan gynnwys amcanion cadwraeth.
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae mapiau o raddau a dosbarthiad y cynefinoedd morol Atodiad I yn helpu i wella'r modd yr ydym yn rheoli gweithgareddau wrth i ni edrych ar gyd-leoli nodweddion sensitif a gweithgareddau/pwysau.
Rheolaeth ehangach	Nac ydy	

Atodiad A12

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Cyflawni cam 2 o'r prosiect gweithgareddau heb eu rheoleiddio, gan ganolbwyntio ar y gweithgareddau â blaenoriaeth. (Cam gweithredu 12)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Mae nod cyffredinol y prosiect yn canolbwyntio ar y gweithgareddau sydd heb eu trwyddedu sy'n peri'r gofid mwyaf ar lefel y rhwydwaith. Mae'n ceisio datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer dosbarthiad gofodol a thymhorol y gweithgareddau hyn, eu dwysedd a'u heffeithiau ar nodweddion a warchodir yn y rhwydwaith. Bydd yn golygu gweithio gyda rhanddeiliaid priodol i nodi a gweithredu ymyriadau rheoli ymarferol ac effeithiol (e.e. rheoleiddio, cymhellion ariannol, newid ymddygiadol, ac ati), lle y bo angen, er mwyn lleihau'r effeithiau.

Roedd cam 2 y prosiect gweithgareddau na ellir eu trwyddedu yng Nghymru yn canolbwyntio'n benodol ar gyflawni gwaith ar y pedwar gweithgaredd a gafodd eu hamlygu fel blaenoriaethau ar gyfer y ffocws cychwynnol ym mis Mai 2018. Y camau gweithredu ar gyfer y gweithgareddau blaenoriaeth oedd:

Angori, mwrio a lansio (hamdden)

Datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer lleoliad a dwyster y gweithgaredd hwn.

Pysgota môr hamdden

Cynyddu lefel dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o effeithiau'r gweithgaredd hwn a sut mae'n cysylltu â nodweddion MPA.

Palu am abwyd/casglu adnoddau byw

Datblygu dealltwriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o leoliad a dwyster y gweithgaredd hwn yng Nghymru a'r potensial i'r gweithgaredd hwn ryngweithio â chynefinoedd 'sensitif'.

Mynediad ar droed

Datblygu ein dealltwriaeth o'r dulliau y gellid eu defnyddio i amcangyfrif dwyster ac ymddygiad o ran mynediad ar droed ar ardaloedd rhynglanwol Cymru a hefyd i gasglu data gwell ar ardaloedd sensitif ar gyfer nodweddion penodol y rhwydwaith MPAs.

Mae gwaith ar y gweithgareddau hyn wedi bod yn digwydd rhwng Mai 2018 a Mawrth 2019 ac mae bellach wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, bydd angen gwaith pellach i fynd ar drywydd llawer o'r argymhellion sydd wedi dod i'r amlwg trwy'r gwaith hwn, er mwyn ymchwilio i waith penodol pellach a/neu ymyriadau rheoli.

Mae'r prosiect yn cynnwys pob ACA/SoDdGA morol perthnasol lle mae'r gweithgareddau'n digwydd yng Nghymru.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Cwblhawyd gwaith yn y pedwar maes gwaith blaenoriaeth hyn sy'n cynyddu'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran dosbarthiad, dwyster ac effeithiau'r gweithgareddau hyn. Isod, nodir crynodeb o'r gwaith a wnaethpwyd:

Angori, mwrio a lansio (hamdden)

Contract wedi'i gwblhau sy'n rhoi lleoliadau manwl (fformat GIS) i Cyfoeth Naturiol Cymru o angori, mwrio a lansio o amgylch arfordir Cymru gyda gwerthoedd dwysedd cysylltiedig.

Pysgota môr hamdden

Adolygiad llenyddiaeth wrth-ddesg sy'n amlygu effeithiau allweddol pysgota môr hamdden sy'n berthnasol i Gymru a pha nodweddion MPA y gellid effeithio arnynt.

Palu am abwyd/casglu adnoddau byw

Mae gwaith wedi'i gynnal yn fewnol i ddatblygu ein dealltwriaeth o ble mae'r gweithgaredd hwn yn digwydd ar hyn o bryd (yn fformat GIS) a lle mae'r gorgyffwrdd â chynefinoedd sensitif yn digwydd yng Nghymru, gan ddefnyddio gwybodaeth o gontract blaenorol a ddyfarnwyd o dan y prosiect hwn.

Mynediad ar droed

Mae contract wedi'i gwblhau sy'n rhoi amlinelliad i Cyfoeth Naturiol Cymru o'r data presennol a'r methodolegau posibl y gellid eu defnyddio i amcangyfrif dwysedd mynediad i draed ac ymddygiad ar barthau rhynglanwol. Mae gan y contract hwn lawer o ddefnyddiau posibl eraill ar gyfer adrannau eraill Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ail gontract hefyd wedi cael ei gwblhau sy'n rhoi lleoliad i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer clwydi llanw uchel ar gyfer nodweddion adar AGA/SoDdGA (yn fformat GIS), sy'n darparu data gwerthfawr am ardaloedd sensitif ar gyfer nodweddion adar MPAs.

Mae'r gwaith a wnaed yng Ngham 2 y prosiect wedi datblygu ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithgareddau blaenoriaeth uchel a bydd yn rhoi arweiniad ar ffocws ar gyfer ymchwilio yn y dyfodol a/neu flaenoriaethu a gweithredu rheolaeth yn y dyfodol os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol.

Cyflenwyd y gwaith uchod ym mis Mawrth 2019 ac fe'i cyflwynwyd mewn gweithdy prosiect ar ddechrau Ebrill 2019, lle trafodwyd cyfeiriad y prosiect yn y dyfodol hefyd.

Bydd yr adroddiadau a gynhyrchir fel rhan o'r prosiect hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	Yn y pen draw, bydd yn datblygu cyngor/ arweiniad i danategu penderfyniadau a gweithrediadau rheoli.
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Bydd y prosiect yn datblygu tystiolaeth ar y berthynas rhwng pwysau/bygythiadau a chyflwr.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Heriau rheoli cyffredin i'w datblygu ar raddfa rhwydwaith – mae'r rhain eisoes wedi'u blaenoriaethu tuag at y rhai yr ystyrir bod ganddynt y potensial i weld y gwella cyflwr mwyaf.

Atodiad A13

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Cyflawni'r camau gweithredu â blaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu Sbwriel Morol lle maent yn creu budd i'r rhwydwaith MPA yng Nghymru (Cam gweithredu 13)
Sefydliad arweiniol:	Y Bartneriaeth Moroedd Glân

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Bydd Cynllun Gweithredu Sbwriel Morol y Bartneriaeth Moroedd Glân yn helpu i fynd i'r afael â sbwriel morol ac yn ceisio sicrhau gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm y sbwriel yn y môr.

I gefnogi cyflawni amryw o gamau gweithredu'r cynllun, mae prosiect a ariennir trwy grant EMFF sy'n cynnwys Cadwch Gymru'n Daclus, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, awdurdodau lleol ac eraill i gasglu ymchwil i sbwriel morol wedi cychwyn.

Mae adolygiad o gamau gweithredu â blaenoriaeth y cynllun ar waith i lywio cam nesaf y ddarpariaeth.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Bydd mesurau llwyddiannus i leihau cyfanswm y sbwriel yn yr amgylchedd morol yn cyflwyno manteision sylweddol i rwydwaith MPAs Cymru.

Bydd cyflawni gostyngiad cyffredinol yng nghyfanswm y sbwriel morol yn cyfrannu at gyflawni Statws Amgylcheddol Da o dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	
Rheolaeth ehangach	Ydy	

Atodiad A14

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Casglu a dadansoddi tystiolaeth ar reoli MPAs yn effeithiol i lywio gofynion adrodd sy'n cyflawni ymrwymiadau rhyngwladol, gan gynnwys y rhai hynny o dan Adran 124 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ac OSPAR. (Cam gweithredu 14)
Sefydliad arweiniol:	Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(au) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, nodwch y dyddiad cwblhau):

Diweddarar asesiad OSPAR 2016 ar effeithiolrwydd rheoli trwy gynnwys gwybodaeth newydd, a bwydo gwybodaeth ar lefel Cymru i mewn i adroddiad y DU.

Llunio adroddiad o dan Adran 124 Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) ar y graddau y mae rhwydwaith ecolegol eglur o MPAs wedi'i gyflawni yn nyfroedd Cymru ac y mae'n cael ei reoli'n effeithiol.

Mae'r cam gweithredu wedi'i gwblhau. Roedd asesiad OSPAR yn cwmpasu pob ACA ac AGA a gyflwynwyd i Gomisiwn OSPAR fel safleoedd OSPAR. Mae'r adroddiad o dan Adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) yn cynnwys pob un o'r 139 MPA yn nyfroedd Cymru.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Cydlynwyd adroddiad y DU ar asesu effeithiolrwydd rheolwyr gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a'i gyflwyno i Gomisiwn OSPAR ar 28 Medi 2018.

Daeth yr adroddiad o dan Adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Ionawr 2019. Mae copi ar gael drwy'r ddolen ganlynol: www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld12056/gen-ld12056-w.pdf

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae'r ddau adroddiad wedi tynnu ar yr asesiadau dangosol o amodau'r safle a baratowyd gan CNC. Maent hefyd yn darparu ffynhonnell ddefnyddiol a chyfredol o wybodaeth i awdurdodau rheoli ar iechyd a chyflwr nodweddion, sydd yn ei dro yn llywio penderfyniadau rheoli ar safleoedd ledled dyfroedd Cymru.
Rheolaeth ehangach	Nac ydy	

Atodiad A15 (gweler Atodiad A20)

Atodiad A16

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Rheoli adnoddau naturiol morol mewn modd cynaliadwy (Cam Gweithredu 16)
Sefydliad arweiniol:	Llywodraeth Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cyllid gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i gyflawni'r prosiect hwn, a fydd yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf yng Nghymru. Bydd y prosiect yn ystyried yr MPAs a allai gael eu heffeithio gan y defnydd o adnoddau llif y llanw, tonnau a dyframaeth yn ardal forol Cymru. Mae'r gwaith yn parhau ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau ym mis Hydref 2020.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Tystiolaeth gan gynnwys data, canllawiau ar leoliad ac offer eraill a fydd yn cynorthwyo datblygwyr, penderfynwyr a rhanddeiliaid eraill ddeall yn well nodweddion sensitif yr amgylchedd mewn ardaloedd a allai gael eu defnyddio yn y dyfodol ar gyfer y sectorau ynni tonnau, ynni ffrwd llanw a dyframaeth. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i'r amgylchedd ac yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy y sectorau hyn.

Cwblhawyd cam cyntaf y prosiect yn 2018, gan ddarparu cronfa ddata o dystiolaeth a aseswyd am ansawdd ac adroddiad yn nodi bylchau allweddol yn y dystiolaeth. Darparodd y cam coladu data cychwynnol hwn adolygiad o Borth Cynllunio Morol Cymru hefyd, gydag argymhellion ar gyfer gwelliannau. Bydd y porth yn ffordd allweddol o gael gafael ar dystiolaeth a'i dehongli er mwyn cefnogi rheolaeth forol.

Mae ail gam y prosiect yn cael ei gario drosodd i Gynllun Gweithredu 2019-2020 (gweler Cam gweithredu 12) Bydd yn cynnwys casglu data (haf 2019), cyfrannu at fapio cyfyngiadau a chyfleoedd, yn ogystal â dehongli dystiolaeth sy'n bodoli eisoes i fapio cyfyngiadau amgylcheddol o fewn ardaloedd adnoddau. Yr allbynnau terfynol fydd pecynnau dystiolaeth a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o gynllunio ac asesu datblygiadau a rhoi caniatâd iddynt.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Ydy	Bydd nodi cyfyngiadau a chyfleoedd mewn perthynas â defnyddio adnoddau yn sail i weithredu polisiâu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, gan gefnogi nodau llesiant a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Wrth wneud hynny bydd y prosiect yn helpu i warchod a, lle bo'n bosibl, gwella cyflwr a chefnogi cydnerthedd ecosystemau.
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Nac ydy	
Rheolaeth ehangach	Nac ydy	

Atodiad A17

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Datblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol morol, gan ddysgu o brosiectau sy'n bodoli eisoes (Cam gweithredu 17)
Sefydliad arweiniol:	CNC, Grŵp Awdurdodau Perthnasol ACA Pen Llŷn a'r Sarnau

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhwch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Treialu prosiect yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS) er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau bioddiogelwch ar draws yr MPA. Bydd hwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ymdrin â'r prif lwybrau o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol morol.
- Datblygu technegau i asesu a darogan effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol ar gynefinoedd a rhywogaethau.
- Meithrin gallu i amddiffyn bioamrywiaeth forol a lleihau'r risgiau i nodweddion gwarchoddedig.
- Dysgu o brosiect Rapid LIFE, yn enwedig y gwaith peilot a gafodd ei wneud ar Afon Hafren.

Mae'r gwaith ar gyfer y cam gweithredu hwn yn parhau – er y disgwyliad i'r prosiect ddechrau ym mis Ebrill 2018 cafwyd oedi cyn cael canlyniad y cais am arian i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, a ddyfarnwyd yn llwyddiannus ddiwedd Hydref 2018. Gohiriwyd dyddiad cychwyn y prosiect hyd at Ebrill 2019 a bydd yn rhedeg tan ddiwedd Mawrth 2022 (prosiect 3 blynedd).

Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno mewn 3 phecyn gwaith a fydd yn

1. Casglu tystiolaeth i fod yn sail i gynlluniau bioddiogelwch ar gyfer PLAS:
 - Asesu a mapio faint o rywogaethau goresgynnol estron sydd yn y safle
 - Asesu effeithiau posibl rhywogaethau goresgynnol estron ar nodweddion a physgodfeydd
 - Ymchwilio i lwybrau cyflwyno a lledaenu
 - Gweithio gyda physgotwyr i adolygu allbynnau o'r dystiolaeth a gasglwyd.
2. Datblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer PLAS i leihau achosion o gyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol gan bobl a lleihau lledaeniad rhywogaethau goresgynnol estron sy'n bodoli eisoes i gynnwys:
 - Cynlluniau gweithredu ar gyfer llwybrau cyflwyno a lledaenu risg uchel
 - Cynlluniau gweithredu rhywogaethau
 - Monitro, rheoli a chodi ymwybyddiaeth.
3. Gweithredu'r cynllun bioddiogelwch a monitro ei effeithiolrwydd:
 - Gweithdai i hyrwyddo'r cynllun bioddiogelwch
 - Gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ymgorffori'r cynllun drwy bolisiau a thrwyddedau cynllunio lleol
 - Ymarfer gwersi a ddysgwyd.

Mae'r Swyddog Prosiect bellach yn ei swydd ac mae Cam Un y prosiect yn mynd rhagddo.

Er bod dyddiad dechrau'r prosiect wedi'i ohirio, comisiynwyd rhywfaint o waith paratoi ar gyfer y prosiect ym mis Medi 2018 drwy Grŵp Llywio Rheoli'r MPA wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Rheolwyd y contract allanol hwn gan swyddog ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Prif ganlyniad y prosiect hwn fydd amddiffyn nodweddion y safle, trwy reoli'r prif lwybrau y caiff rhywogaethau estron goresgynnol morol eu cyflwyno a'u lledaenu ar lefel safle trwy ddefnyddio bioddiogelwch da. Bydd y prosiect Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop hwn yn datblygu cynllun bioddiogelwch ar gyfer ACA Pen Llŷn a'r Sarnau llywio'r gwaith o weithredu cynlluniau bioddiogelwch effeithiol yn y rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchoddedig yng Nghymru yn y tymor hir.

Gwaith wedi'i gwblhau hyd yma: Roedd y gwaith paratoi a gomisiynwyd ym mis Medi 2018 yn cynnwys diweddarau a mireinio data sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Cymru ar weithgareddau sy'n hysbys eu bod yn gweithredu fel llwybrau ar gyfer cyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron, er enghraifft; dyframaeth, llongau hamdden a morgludiant. Bydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio i fapio'r prif fannau cyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru yn ystod Cam 1 y prosiect.

Roedd y gwaith hefyd yn cynnwys cynhyrchu/diweddarau haen GIS (mapio) ar ddsbarthiad rhywogaethau goresgynnol estron morol yng Nghymru a fydd hefyd yn helpu i fapio'r mannau cyflwyno a lledaenu mwyaf cyffredin. Cynhyrchwyd yr haen gan ddefnyddio data o NBN Atlas felly mae'n bosibl y bydd angen cynnwys setiau data eraill er mwyn diweddarau'r haen yn llawn. Mae canlyniadau'r contract hwn wedi'u cyflawni a'u hadolygu.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Ydy	Yn rhannol gyson gan y bydd rhai elfennau penodol i sector.
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	Bydd y prosiect yn datblygu rhai canllawiau ar weithrediadau e.e. i atal cyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron morol.
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Bydd yn datblygu tystiolaeth i wella dealltwriaeth o'r berthynas rhwng pwysau a bygythiadau o du rhywogaethau goresgynnol estron a chyflwr.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu rheolaeth sy'n canolbwyntio ar y gweithgareddau sy'n peri'r pryder mwyaf, a bydd yn cyflwyno newidiadau cadarnhaol mewn dulliau gweithio ar gyfer y rhwydwaith ehangach drwy gymhwyso'r dysgu ar raddfa'r rhwydwaith.

Atodiad A18

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Datblygu canllawiau cyson a chymesur er mwyn gwneud y canlynol: a) gwella cyngor gwaith achos, a b) cefnogi'r gwaith o roi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith. (Cam gweithredu 18)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru, JNCC

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Cefnogi asesiadau cyson a chymesur o effeithiau gweithgareddau a reoleiddir ar nodweddion gwarchoddedig MPAs yn ardal forol Cymru. Canllawiau i gefnogi'r gwaith o roi polisiâu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith mewn penderfyniadau, e.e. trwyddedau morol a chanllawiau sy'n ymwneud â pholisiâu penodol.

Mae hwn yn gam gweithredu parhaus gan nad oes pen draw i'r cyngor cychwynnol a bydd angen ei ddiweddarau'n barhaus. Mae'n cwmpasu pob un o'r MPAs.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Allbynnau cychwynnol:

Mae CNC wedi datblygu canllawiau i gynorthwyo ymgeiswyr i baratoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer asesiadau amgylcheddol, ac mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar setiau data benthig sydd gan CNC, arolwg benthig a chynaeafu gwymon.

Yn ogystal, mae CNC wedi cynhyrchu canllawiau ar gymhwyso'r rheoliadau newydd sy'n rheoli Asesiadau Effaith Amgylcheddol a chanllawiau sy'n egluro ymhellach y broses o wneud cais am drwyddedau morol.

Mae gan y JNCC wybodaeth wahanol am weithgareddau ar gyfer pob MPA yn ei dudalennau gwybodaeth am safleoedd ar ei wefan.

Y canlyniad disgwyliedig:

Bydd canllawiau cyson a chymesur yn cefnogi penderfyniadau gwell a fydd yn helpu i wella diogelwch gwaith rheoli ac yn helpu i gynnal cyflwr nodweddion ein MPAs a'u gwella lle y bo'n briodol.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	<p>Bydd y cam gweithredu hwn yn gwella cyngor CNC ar sut dylid defnyddio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru mewn prosesau rheoleiddio a chytuno ar gyfer MPAs yng Nghymru.</p> <p>Bydd gwelliannau yn y canllawiau a gynhrychir gan CNC yn golygu y gellir cyflawni datblygiadau yn yr amgylchedd morol mewn ffordd fwy strwythuredig a chyson gan wella penderfyniadau cydsynio.</p>
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	<p>Bydd y cam gweithredu hwn yn gwella cyngor CNC ar sut dylid defnyddio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru mewn prosesau rheoleiddio a chytuno ar gyfer MPAs yng Nghymru.</p> <p>Bydd hyn yn sicrhau bod penderfyniadau a gweithrediadau rheoli yn cael eu hategu gan gyngor a chanllawiau clir a chyson sy'n gwella ffyrdd cyfredol o weithio.</p>
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Nac ydy	
Rheolaeth ehangach	Nac ydy	

Atodiad A19

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Mynd i'r afael ag effeithiau gwasgfa arfordirol ar MPAs. (Cam gweithredu 19)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Mae dwy elfen allweddol i'r cam gweithredu hwn:

1. adolygiad i ddeall natur a graddfa'r wasgfa arfordirol ar nodweddion cynefinoedd arfordirol MPAs; a
2. pharhau i ddatblygu prosiectau creu cynefinoedd er mwyn darparu cynefinoedd arfordirol cydadferol ar gyfer cynefinoedd y rhagwelir y bydd yn cael eu colli yn sgil gwaith sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol.

Rhan 1

Mae'r adolygiad i ddeall natur a graddfa'r wasgfa arfordirol ar nodweddion cynefinoedd arfordirol MPAs wedi'i gynnal drwy brosiect ymchwil a datblygu o'r enw: Cyngor ar Raddfa Dirywiad Safleoedd Natura 2000 yng Nghymru oherwydd Colledion Gwasgfa Arfordirol, ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Comisiynwyd ABPMer gan CNC i ymgymryd â'r prosiect hwn ym mis Tachwedd 2018 a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol yn ystod gwanwyn 2019.

Mae Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o'r Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP) eisoes yn nodi'r cynefinoedd sy'n debygol o gael eu colli oherwydd gwasgfa arfordirol a allai godi o leoliadau sydd â pholisi rheoli o barhau i ddal y llinell. Nid yw'r HRA o'r SMP yn ystyried unrhyw effeithiau gwasgfa arfordirol sy'n gysylltiedig â pholisiau dim ymyrraeth weithredol (NAI) neu adlinio rheoledig (MR), ac eto mae llawer o leoliadau gyda'r polisiau hyn lle mae strwythurau amddiffyn yn bodoli a gallant barhau i fodoli am gyfnod hir, gan achosi colledion ychwanegol yn sgil y wasgfa arfordirol. Mae'n annhebygol y bydd yr effeithiau hyn yn cael eu hystyried fel prosiectau o dan Erthygl 6(3) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd ac maent yn fwy tebygol o fod yn effeithiau dirywiad sy'n dod o dan Erthygl 6(2).

Nod y prosiect oedd ceisio deall graddfa'r colledion ychwanegol posibl hyn drwy edrych ar natur a chyflwr unrhyw strwythurau amddiffyn o fewn unedau polisi NAI ac MR, y tebygolrwydd o drwsio ad hoc a fyddai'n ymestyn oes y strwythurau, ac a oes cyfiawnhad dros fuddsoddi pellach er gwaethaf y polisi a ffafrir.

Oherwydd cymhlethdod y prosiect, amser, data a chyfyngiadau'r gyllideb, penderfynwyd canolbwyntio ar ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn y lle cyntaf er mwyn datblygu a phrofi'r fethodoleg ar gyfer yr asesiad hwn. Bydd yr allbynnau'n cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru unwaith y byddant ar gael i lywio trafodaethau ynghylch sut i fynd i'r afael â'r effeithiau dirywiad hyn.

Rhan 2

Ail ran y cam gweithredu hwn yw parhau i ddatblygu prosiectau creu cynefinoedd er mwyn darparu cynefinoedd arfordirol cydadferol ar gyfer cynefinoedd sy'n debygol o gael eu colli yn sgil gwaith sy'n gysylltiedig â chynlluniau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol. Mae CNC yn cyflawni'r Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol (NHCP) ar ran Llywodraeth Cymru. Rhaglen strategol yw hon i ddarparu cynefinoedd cydadferol i wrthbwyso effeithiau gwasgfa arfordirol cynlluniau a phrosiectau'r Awdurdod Rheoli Risg (Awdurdodau Lleol a CNC). Nid yw'n darparu cynefin cydadferol ar gyfer trydydd partïon, er y cytunwyd yn ddiweddar ar fecanweithiau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â thrydydd partïon o dan amgylchiadau penodol.

Mae'r NHCP wedi bwrw ymlaen â chynllun creu cynefinoedd yng Nghwm Ivy, gogledd Gŵyr. Methodd yr amddiffynfa yn 2014, yn dilyn stormydd gaeaf 2013/14, ac mae'r safle yn datblygu'n dda¹⁴. Gerllaw, cafodd cynllun cydadferol bach yn Crofty ei gwblhau hefyd i wrthbwysu colledion gwasgfa arfordirol ar gyfer cynllun FRM Penclawdd.

Hyd yn hyn nid oes unrhyw safleoedd eraill wedi cael eu dwyn ymlaen i gael eu gweithredu o dan NHCP ond mae nifer o safleoedd ledled Cymru, o wahanol raddfa a chymhlethdod, naill ai yng ngham cynnar y prosiect neu'n cael eu hystyried yn fanwl. Disgwylir y bydd yr NHCP yn parhau ac y bydd yn cymryd sawl blwyddyn i ddod â safleoedd ymlaen i'r cam cyflwyno.

Mae'r gwaith i ddatblygu'r prosiectau creu cynefinoedd hyn hefyd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Polisi Adnoddau Naturiol a'r thema newydd 'atebion ac addasiadau seiliedig ar natur' a nodwyd ar gyfer y Datganiad Ardal Forol. Felly, bydd unrhyw brosiectau'n cael eu datblygu yng nghyd-destun gwaith CNC ar Ddatganiadau Ardal.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Allbwn gwirioneddol:

Parhau i ddatblygu cynefin yng Nghwm Ivy, Gŵyr.

Allbwn disgwyliedig:

Mwy o wybodaeth am effeithiau posibl y wasgfa arfordirol i fod yn sail i gynllunio ar gyfer cyflenwi cynefinoedd.

Y canlyniadau disgwyliedig:

Digolledu pellach am golli rhai cynefinoedd arfordirol oherwydd y newid yn yr hinsawdd.

¹⁴ www.nationaltrust.org.uk/whiteford-and-north-gower/features/cwm-ivy-where-the-sea-comes-in

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Ydy	Mae hon yn broses strategol sy'n berthnasol i'r egwyddor reoli hon gan ei bod yn cefnogi'r defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd morol gan gydnabod bod angen i fgythytiadau mawr fel Newid yn yr Hinsawdd fod â phroses ar waith i wneud iawn am golli nodweddion MPA yn y dyfodol.
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	Mae'r cam gweithredu hwn yn berthnasol i'r egwyddor reoli hon gan ei fod yn cydnabod yr angen i gael proses ar waith i wneud iawn am golli nodweddion MPA yn y dyfodol fel y mae'n berthnasol i'n cyfundrefn reoleiddio a chydysnio.
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	Bydd y cam gweithredu hwn yn gwella cyngor CNC ar faterion y wasgfa arfordirol.
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Bydd y cam hwn yn ein helpu i ddeall effeithiau y tu allan i'r system bresennol ac a oes angen system arall i fynd i'r afael â'r mater hwn.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Mae hon yn her reoli gyffredin y mae angen ei datblygu ar raddfa'r rhwydwaith a bydd yn canolbwyntio camau gweithredu lle mae cyflwr y nodweddion dan y bygythiad mwyaf.

Atodiad A20

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Cynnal cysylltiadau rhwng Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith a chamau gweithredu a gytunwyd yn lleol, lle maent yn bodoli, a chefnogi'r gwaith o archwilio cyfleoedd ariannu (Cam gweithredu 20)
Sefydliad arweiniol:	Grwpiau Awdurdod Perthnasol

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Mae Swyddog ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn aelod o Grŵp Llywio'r MPA fel cynghorydd Swyddog y Safle Morol Ewropeaidd (EMSO). Mae'r cynghorydd wedi mynychu cyfarfodydd a chysylltu ag EMSOs eraill i gyfrannu at waith y Grŵp Llywio. Mae aelodau eraill o'r Grŵp Llywio wedi ymgymryd â gwaith cysylltu lleol hefyd trwy eu rolau fel aelodau o Grŵp Awdurdod Perthnasol (RAG).

Mae'r gwaith mae EMSOs yn ei wneud ar lefel safle yn amrywiol, ac mae adroddiad llawnach ar y gwaith y maent yn ei wneud i'w gael mewn adroddiad i'r Grŵp Llywio ar eu cynnydd ar gyfer y flwyddyn 2018/19¹⁵.

Mae amryw o brosiectau lefel safle wedi'u rhoi ar waith yn 2018/19. Nod y prosiectau hyn yw naill ai:

- lleihau'r effeithiau ar nodweddion y safle, gan helpu i weithio tuag at gyflwr ffafriol;
- cynnal cyflwr y nodwedd;
- ymchwilio i effeithiau; a
- chanolbwyntio ar addysg ac ymwybyddiaeth.

Disgrifir enghreifftiau o waith a gyflawnwyd eleni ac allbynnau yn yr adran isod. Noder fod yr oriau a weithir gan swyddogion y safle yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cyllid a dderbynnir, ac adlewyrchir hynny yn nifer y prosiectau a gyflawnir ym mhob safle.

Yn ogystal â gwaith prosiect, mae pob swyddog safle'n cyflawni gwaith cyswllt a rheoli safle cyffredinol sy'n cynnwys:

- Cynnal y RAG a'r Grwpiau Cyswllt;
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- Codi ymwybyddiaeth ac addysg (gan gynnwys trefnu digwyddiadau ac ymweliadau ysgol);
- Chwilio am gyllid a'i sicrhau, gan gynnwys datblygu prosiectau;
- Pwynt cyswllt MPA;
- Darparu cyngor a gwybodaeth;
- Hyrwyddo codau morol lleol;
- Gwaith cyswllt a phartneriaeth;
- Gweithio gyda swyddogion safleoedd eraill i sicrhau cysondeb ar draws y rhwydwaith;
- Bod yn aelod o wahanol grwpiau i sicrhau bod MPAs yn cael eu cynrychioli ac yn hyrwyddo cydweithio e.e. Grŵp Llywio Rheoli MPA, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol ac ati.

¹⁵ llyw.cymru/y-diweddaraf-am-grwpiau-awdurdodau-perthnasol-cymru-2018-19

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Enghreifftiau o allbynnau cychwynnol ar gyfer 2018/19 (manylion a'r rhestr lawn o brosiectau yn yr adroddiad llawn):

- Prosiectau graddfa tirwedd: Mae ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS) wedi sicrhau cyllid ar gyfer dau brosiect graddfa tirwedd mawr ar draws yr ACA.
- Prosiectau ansawdd dŵr: Mae ACA PLAS wedi cynnal prosiect sy'n edrych ar ffynonellau llygredd yn afon Darron. Mae'r prosiect yn cynnwys argymhellion ar wella ansawdd dŵr ac mae cyllid wedi'i sicrhau i roi'r argymhellion hyn ar waith dros y ddwy flynedd nesaf. Cyflwynodd ACA Morol Sir Benfro brosiect gwyddoniaeth i ddinasyddion o'r enw SWEPT ('*Surveying the Waterway Environment for Pollution Threats*'), gan edrych ar ddŵr ffo a lefelau nitrad mewn nifer fawr o safleoedd; bydd yr adroddiad terfynol ar gael yn ystod hydref 2019.
- Prosiectau sbwriel: cyflawnwyd amryw o brosiectau sbwriel ar lefel safle e.e. "Y Gwelltyn Olaf Un" – prosiect PLAS sy'n annog busnesau lleol i roi'r gorau i ddefnyddio gwellt plastig a chystadleuaeth ACA Bae Ceredigion i blant ysgol Ceredigion ddylunio logos ar gyfer cynllun achredu i'w gyflwyno yn 2019.
- Gweithgareddau Blwyddyn y Môr: Cynhaliwyd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth yn gysylltiedig â Blwyddyn y Môr ar draws safleoedd a fynychwyd gan filoedd o ymwelwyr a chymunedau lleol, gan roi mwy o wybodaeth iddynt am yr amgylchedd morol.
- Prosiect Morwellt Porthdinllaen: Eleni, gosododd ACA PLAS ddau angor heligol yn yr harbwr mewnol ym Mhorthdinllaen fel treial; mae gan yr angorau hyn ôl troed llai o faint, a gobeithio y byddant yn disodli angorau mwy difrodus yn y dyfodol.
- Rhaglen fonitro Gwylio Dolffiniaid: Roedd ACA Bae Ceredigion yn parhau i recriwtio a hyfforddi pobl i gofnodi gweithgarwch dolffiniaid ym Mae Ceredigion, ac roeddent yn darparu hyfforddiant ychwanegol hefyd i gynnwys monitro llamidyddion a'r frân goesgoch eleni.
- Pecyn addysg forol: Mae ACA Morol Sir Benfro ac ACA PLAS wedi drafftio pecynnau addysg dwyieithog. Mae'r ddwy ACA wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau.
- Capasiti gweithgareddau: Roedd ACA Morol Sir Benfro yn gweithio gyda fforwm Arfordir Penfro ar brosiect capasiti gweithgareddau lle byddai gwrthdaro rhwng gweithgarwch hamdden a nodweddion MPA yn cael ei 'fapio' fel adnodd i helpu i lywio gwaith rheoli.
- Adolygiad o weithgarwch hamdden: Mae data'n cael ei gasglu ar hyn o bryd ar ddwysedd, mynychder a lleoliad gweithgareddau yn EMS Aber Afon Hafren a'r cyffiniau.
- Rhywogaethau goresgynnol: Cafodd y pecyn hyfforddi bioddiogelwch RAPID LIFE ei dreialu a'i brofi yn EMS Aber Afon Hafren ym mis Mai 2018.

Canlyniad:

Cynorthwyo cysylltiadau a chyswllt rhwng camau gweithredu lefel rhwydwaith a gweithgarwch rheoli MPA lleol. Galluogi dysgu rhwng prosiectau a hyrwyddo gwaith a gyflawnir ar lefel safle.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae rhai agweddau ar y prosiectau lefel safle yn gwella ein dealltwriaeth o bwysau ar MPA e.e. mae'r prosiectau ansawdd dŵr yn ceisio casglu tystiolaeth o lygredd dŵr gwasgaredig a'r ffynonellau mewnbwn ar gyfer ACA Morol Sir Benfro ac ACA PLAS.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Mae ystod eang o weithgareddau ar lefel safle'n cyfrannu at yr egwyddor rheoli hon.

Atodiad A21

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Rheoli'r rhwydwaith o MPAs mewn modd integredig a chynaliadwy gyda phroses y Datganiadau Ardal. (Cam Gweithredu 21)
Sefydliad arweiniol:	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Mae CNC yn datblygu 7 Datganiad Ardal o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae ardal y Datganiad Ardal forol yn cynnwys holl ardal forol fewndirol Cymru (hyd at 12 milltir forol) ac yn ffinio â phob un o'r chwe ardal ddaearol ar hyd yr arfordir. Diben Datganiadau Ardal yw hwyluso'r gwaith o weithredu Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar le. Mae'r Datganiad Ardal morol yn cael ei arwain gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n cynnwys staff Gweithrediadau ac EPP sy'n cyfarfod bob mis.

Datblygwyd themâu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer pob ardal ac maent yn canolbwyntio ar flaenoriaethau a heriau allweddol y Polisi Adnoddau Naturiol ym mhob lle. Y themâu morol sy'n dod i'r amlwg yw:

- Atebion ac addasiadau seiliedig ar natur yn y parth arfordirol
- Cefnogi gweithredu cynllunio morol
- Adeiladu cydnerthedd yr amgylchedd morol.

Mae adeiladu cydnerthedd ecosystemau yn un o amcanion allweddol Deddf yr Amgylchedd ac fe'i hadlewyrchir yn y Polisi Adnoddau Naturiol. O ganlyniad, bydd cyfle i ystyried cyfleoedd i adeiladu cydnerthedd ecosystemau ar draws yr holl themâu sy'n cael sylw yn y broses Datganiadau Ardal. Bydd y thema hon yn archwilio beth sydd angen digwydd er mwyn sicrhau Statws Amgylcheddol Da ar gyfer moroedd Cymru, gan fynd i'r afael â blaenoriaeth y Polisi Adnoddau Naturiol o ran datblygu rhwydweithiau gwydn yn ecolegol.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Allbynnau gwirioneddol:

Mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn rhan annatod o Gynllun Lle a Gwasanaeth Morol CNC. Y camau nesaf fydd defnyddio'r themâu hyn fel ffocws ar gyfer trafodaeth bellach gyda rhanddeiliaid, ac rydym wrthi'n datblygu cyfres o gynlluniau ymgysylltu â rhanddeiliaid cenedlaethol a seiliedig ar le i gefnogi'r gwaith hwn.

Bydd y Datganiad Ardal morol ar gael o fis Mawrth 2020.

Canlyniad Disgwyliedig:

Integreiddio prosesau cynllunio a rheoli morol a rhoi cefnogaeth ychwanegol i gyflawni'r gwaith o reoli'r rhwydwaith o MPAs.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Ydy	Mae datganiadau ardal yn fath o gynllunio strategol.
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	
Rheolaeth ehangach	Nac ydy	

Atodiad B

Rhagor o fanylion am hynt y camau rheoli y tu allan i Gynllun Gweithredu 2018-2019

Mae'r atodiad hwn yn cyd-fynd â Thabl 2, gan roi mwy o fanylion. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan sefydliadau eraill wedi'i chynnwys yma air am air.

Atodiad B1

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Coffáu'r Rhyfel Llongau Tanfor Almaenig (U-Boats) angof o amgylch Arfordir Cymru 1914-18 (Prosiect U-Boat1914-18 ¹⁶)
Sefydliad arweiniol:	Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Mae'r prosiect yn gydweithrediad rhwng Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Prifysgol Bangor a'r Gymdeithas Archaeoleg Forwrol i gasglu data ar gyflwr a bioamrywiaeth 20 o safleoedd llongddrylliadau o amgylch arfordir Cymru sydd â chysylltiadau cryf â'r Rhyfel Mawr. Mae'r 20 safle yn cynnwys llongau tanfor a llongau rhyfel bach Prydeinig ac Almaenig, yn ogystal â llongau masnach mawr a gafodd eu suddo gan dorpedo neu ffrwydron¹⁷. Mae'r safleoedd yn rhan o Fae Lerpwl ac Ynys Skomer, Skokholm a'r moroedd oddi ar AGA Sir Benfro, ac ACA Morol Gogledd Ynys Môn a Cheg Môr Hafren. Mae'r prosiect yn gweithio gyda menter Seasearch y Gymdeithas Cadwraeth Forol i ddenu gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau adnabod morol gan ddefnyddio delweddau a gipiwyd gan ddeifwyr chwaraeon a ffotograffydd tanddwr proffesiynol. Cyn yr arolygon ecolegol, casglwyd data ecoseiniwr amlbelydr gan RV Prince Madog Prifysgol Bangor. Mae'r safleoedd llongddrylliad a ddewiswyd ar gyfer yr arolwg ecolegol morol fel a ganlyn – CARTAGENA, APAPA, DERBENT, DRINA, SAINT JACQUES, HURST ac U61. Mae ymchwilyr o Ysgol Gwyddorau'r Cefnforoedd, Prifysgol Bangor, yn cydlynu rhaglen waith ecolegol y môr, sy'n rhan o Brosiect ehangach sy'n cynnwys amgueddfeydd morol a grwpiau cymunedol i goffáu profiad Cymru o'r Rhyfel Byd Cyntaf ar y môr.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Caiff ffotograffau tanddwr o fywyd y môr a data'r arolwg ecolegol eu rhannu drwy wefan I Record¹⁸ a ddatblygwyd ar ran y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol. Bydd y setiau data'n parhau i gael eu defnyddio mewn gweithgareddau ymchwil, allgymorth ac addysgu ar gyfer y tri sefydliad partner ar ôl i'r prosiect ddod i ben ym mis Rhagfyr 2019.

¹⁶ www.uboaatproject.wales/

¹⁷ www.uboaatproject.wales/ships/

¹⁸ www.brc.ac.uk/irecord/join/yn-coffur-rhyfel-ar-y-mr--commemorating-the-war-at-sea

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Ydy	Mae safleoedd llongddrylliad yn gweithredu fel creigresi a wnaed gan ddyn sy'n rhoi cysgod ac amrywiaeth o is-haenau i gefnogi amrywiaeth eang o rywogaethau. Mae'r prosiect yn helpu i wella gwybodaeth am ein moroedd er mwyn llywio defnydd cynaliadwy a galluogi cynllunio morol effeithiol.
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	Mae'r arolygon yn arolygon o gyflwr asedau treftadaeth i bob pwrpas, gan helpu i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer monitro cyfraddau dirywiad, effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar fioamrywiaeth a darparu gwell mynediad i'r safleoedd.
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	Bydd canlyniadau'r astudiaethau aml-belydr ac ecolegol yn cynorthwyo Cadw, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru, i bennu amcanion cadwraeth (e.e. gwarchodaeth statudol, pa mor aml y cynhelir arolygon, y potensial i'r data safle fod yn sail i amcanion cadwraeth eraill o fewn yr MPA).
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Mae'r pwysau ar safleoedd unigol a'r bygythiadau iddynt a nodwyd yn berthnasol i longddrylliadau eraill o'r math hwn a'r cyfnod hwn (dros 150 o safleoedd o amgylch arfordir Cymru).
Rheolaeth ehangach	Ydy	Mae'r prosiect yn helpu i godi ymwybyddiaeth o bresenoldeb yr asedau treftadaeth hyn ac yn hyrwyddo rheolaeth gyfannol o'r dreftadaeth archeolegol a'r cynefinoedd pwysig y maent yn eu darparu.

Atodiad B2

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Rheolaeth o fewn AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn
Sefydliad arweiniol:	RSPB Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Mae'r RSPB yn cyflogi pedwar warden môr-wenoliaid tymhorol i ddiogelu dwy nythfa môr-wenoliaid yn AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn, gan gynnwys Ynysoedd y Moelrhoniaid, sef y nythfa fwyaf o fôr-wennol y Gogledd yn y DU.

Mae'r wardeiniaid yn patrolio'r nythfa i ddiogelu'r nythod a'r cywion rhag ysglyfaethwyr, ac aflonyddwch damweiniol gan bobl. Maent hefyd yn codi cysgodfannau i ddiogelu cywion ifanc rhag y gwaethaf o'r tywydd, ac yn cynnal a chadw rhywfaint o'r llystyfiant fel nad yw'n rhy hir i'r môr-wenoliaid nythu ynddo.

Tasg bwysig arall yw monitro niferoedd a llwyddiant magu yr holl adar bridio pwysig. Caiff y gwaith o amddiffyn y nythfeydd a'r MPA ei ategu hefyd gan ymchwil i arferion hela bwyd a chyfraddau goroesi adar llawndwrf môr-wenoliaid y Gogledd.

Mae wardeiniaid y môr-wenoliaid yn cael eu cefnogi gan staff llawn amser ar Ynys Môn, sydd hefyd yn hyrwyddo'r nythfeydd trwy gynllunio a sgysiau. Yn ogystal, caiff gwybodaeth am yr AGA ei defnyddio mewn ystyriaethau gwaith achos megis datblygiadau gan gynnwys tyrbinau gwynt, tyrbinau tanfor ac ati. Ar hyn o bryd, mae Prosiect LIFE cenedlaethol ar gyfer y môr-wennol ffrwynog¹⁹ yn ariannu gwaith ar y nythfeydd.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Mae'r ddwy nythfa yn cynnal tua 5,500 o barau o adar y môr: 4,000 môr-wennol y Gogledd, 450 môr-wennol gyffredin, 380 pâl, 800 gwylan y penwaig, 190 gwylan gefnddu fach a 26 o wylanod cefnddu mwyaf.

Mae'r ddwy ohonynt yn hen nythfeydd i'r fôr-wennol ffrwynog – aderyn môr mwyaf prin y DU. Un o flaenoriaethau'r AGA yw cynnal y nythfeydd mewn cyflwr addas rhag ofn iddynt ddychwelyd. Yn 2018, cafodd dau gyw môr-wennol ffrwynog eu geni yn Ynysoedd y Moelrhoniaid – gydag un cyw wedi hedfan y nyth yn llwyddiannus am y tro cyntaf ers 2006.

¹⁹ www.roseatetern.org/index.html

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Ydy	Mae staff gwaith achos yn bwydo gwybodaeth am y safleoedd i mewn i gynigion a allai effeithio ar yr AGA.
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Gwaith monitro gan gynnwys maint y boblogaeth a llwyddiant magu.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Cadwraeth ar lawr gwlad yn ogystal â gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Atodiad B3

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	AGA Gwales
Sefydliad arweiniol:	RSPB Cymru ar y warchodfa

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Gwaith rheoli parhaus

Mae RSPB Gwales 8 milltir oddi ar arfordir Sir Benfro ac mae'n un o'r mannau mwyaf gorllewinol yng Nghymru. Mae'r ynys folcanig bellennig hon, sydd wedi'u chreu o haenau o basalt, yn gartref i'r nythfa huganod fwyaf ond dwy yn y byd. Mae 36,000 pâr wedi eu gwasgu ar y graig fach, 9ha hon ym Môr Iwerddon a dyma'r unig nythfa huganod yng Nghymru. Mae'r nythfa wedi cynyddu'n gyflym yn dilyn dyfodiad y parau cyntaf yng nghanol yr 1800au. Mae'r AGA yn ymestyn i'r dyfroedd cyfagos. Hugan *Morus bassanus* yw unig nodwedd yr AGA (ac elfen MPA).

Mae'r ynys yn cael ei rheoli gan staff yr RSPB ar Ynys Dewi gerllaw ac, ynghyd ag arolygon poblogaeth o'r awyr a gynhelir bob pum mlynedd, mae'r gwaith craidd yn canolbwyntio ar brosiect hirdymor gyda Phrifysgol Caerwysg i astudio ardaloedd hela bwyd a gaeafu y rhywogaeth hon er mwyn asesu gwrthdaro â physgodfeydd gartref a thramor.

Mae deuddeg mlynedd o fonitro parhaus gan ddefnyddio dyfeisiau olrhain GPS a thechnoleg 'bio-logio' arall wedi creu darlun o strategaethau hela bwyd a mudo'r huganod nad oedd ar gael yn flaenorol i wyddonwyr. Er gwaethaf y ffigurau poblogaeth iach yn ôl pob golwg, mae yna bryder, yn enwedig ar diroedd gaeafu'r adar oddi ar arfordir gorllewin Affrica lle ceir tystiolaeth eu bod yn gwrthdaro mwy a mwy â physgodfeydd heb eu rheoleiddio yn y rhanbarth hwn.

Bob mis Hydref, ar ddiwedd y tymor bridio, mae RSPB Cymru yn mynd i'r warchodfa i ryddhau adar (cywion yn bennaf) sydd wedi mynd yn sownd mewn sbwriel morol yn ystod y flwyddyn. Mae astudiaethau blaenorol wedi dangos bod tua 18 tunnell o blastig ar yr ynys. Mae nythod huganod ar Gwales yn cynnwys, ar gyfartaledd, 469.9g o blastig, rhaffau wedi'u gwneud o ffibrau synthetig yn bennaf, ac mae o leiaf 33-109 o adar yn mynd yn sownd ynddynt bob blwyddyn. Mae ei symud oddi yno yn amhosibl; hyd yn oed pe gellid dod o hyd i ffordd o wneud hynny byddai'n arwain at ddinistrio'r rhan fwyaf o'r nythod yn y nythfa ac o ystyried bod gan huganod strwythur cymdeithasol cymhleth, mae'n bosibl y gallai achosi i nifer fawr ohonynt adael y safle. Mae angen ymyrraeth polisi i atal y llygredd rhag mynd i mewn i'r MPA yn y tarddiad.

Rhaffau a llinellau pysgota wedi'u taflu yw'r rhan fwyaf o'r plastig, yna tâp pacio sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin gan fusnesau ynghyd ag elfen o sbwriel plastig o'r cartref. Gall adar sy'n treulio misoedd lawer yn eistedd ar nyth siâp cromen fynd yn sownd a chael eu 'clymu' i'w safle nythu. Heb ymyrraeth byddent yn llwgu yn y pen draw.

Dyma ambell uchafbwynt o 2018:

- Lansio gin Ynys Dewi, a gynhyrchwyd gan ein partneriaid yn St David's Kitchen. Bydd cyfraniadau i'r RSPB o werthu'r gin yn helpu i ariannu gwaith rheoli Gwales.

- Teithiau ymchwil parhaus i leoli adar wedi'u marcio â chylchoedd y gellir eu hadnabod yn unigol, fel rhan o astudiaeth nodi-ailgipio. Gyda'n partneriaid ymchwil o Brifysgol Caerwysg rydym wedi gosod modrwy ar 517 o huganod ers 2010 a'r adar hyn yw'r rhai yr ydym yn gwneud pob ymdrech i'w gweld eto bob blwyddyn. Mae'r astudiaeth nodi-ailgipio hon yn ein galluogi i amcangyfrif goroesiad huganod llawndwf o un tymor i'r llall. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod cyfraddau goroesi huganod llawndwf ar Gwales yn is na'r disgwyl, yn enwedig ymysg yr adar benyw ac mae'r astudiaeth hon yn amhrisiadwy o ran ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Bydd y data gweld modrwyau yn caniatáu i wyddonwyr ymchwil Caerwysg wneud amcangyfrifon mwy cywir a dechrau ymchwilio i achosion marwolaethau huganod llawndwf.
- Sylw rheolaidd yn y cyfryngau i Gwales, yn enwedig mewn perthynas â phlastigau morol.
- Yn ystod y daith flynyddol i ryddhau adar a oedd yn sownd mewn plastig ym mis Hydref 2018, cafodd 18 o adar eu rhyddhau (y cyfanswm isaf ond un i'w gofnodi). Ers dechrau'r ymweliadau mis Hydref yn 2005, mae 667 o adar wedi'u rhyddhau.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwylidig):

Bod y nodwedd yn cael ei rheoli'n barhaus, gan gynnwys monitro;

Ymchwil wyddonol gyhoeddedig sy'n llywio anghenion rheoli a pholisi;

Marwolaethau'r nodwedd yn gostwng o ganlyniad i ymyriad gweithredol (rhyddhau o blastig);

Proffil uwch cadwraeth adar môr a phlastigau morol.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Gweler y manylion ar fonitro ac astudiaethau ymchwil parhaus.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Nod y rheolwyr yw gwella cyflwr y nodwedd, nodi a mynd i'r afael â materion lleol a <i>byd-eang</i> penodol a phwysau ar y nodwedd o fewn eu cwmpas, a chodi ymwybyddiaeth o MPAau trwy ymgysylltu, gan gynnwys y cyfryngau.

Atodiad B4

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	AGA Bae Lerpwl; AGA Aber Afon Dyfrdwy
Sefydliad arweiniol:	(RSPB Cymru yn rhoi cymorth ychwanegol ar y warchodfa)

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhwch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Mae'r RSPB yn cyfrannu at reoli nodweddion yr AGA, yn bennaf trwy ein gwaith ar warchodfa Aber Afon Dyfrdwy, yn enwedig yn y Parlwr Du a thrwy brosiect môr-wennol fechan LIFE (sy'n canolbwyntio ar nythfa Gronant yng Nghymru).

Rydym yn cadw golwg ar glwyd rhydyddion llanw uchel trwy'r gaeaf, i gyfyngu ar unrhyw aflonyddwch i'r adar sy'n clwydo yn sgil gweithgareddau hamdden (cerddwyr cŵn ac ati). Rydym yn cynnal llond llaw o ddigwyddiadau ymgysylltu yno hefyd, megis teithiau tywys a sesiynau casglu sbwriel, gan godi ymwybyddiaeth o'r AGA.

Mae'r RSPB wedi cydgysylltu prosiect cenedlaethol sy'n cael ei ariannu gan Life gyda'r nod o osod y sylfeini ar gyfer adfer y môr-wennol fechan, *Sternula albifrons* yn y DU. Yng Nghymru mae'r RSPB wedi gweithio'n agos gyda staff Cyngor Sir Ddinbych i 'gynyddu' rheolaeth cadwraeth a gwaith amddiffyn yn nythfa'r môr-wennol fechan ar draeth Gronant. Dyma'r unig nythfa môr-wennol fechan sy'n weddill yng Nghymru ac eithrio nythfa fach ymhellach i'r gogledd gydag un pâr yn nythu yn y Parlwr DU bob blwyddyn ers 2015.

Mae AGA Aber Afon Dyfrdwy mewn cyflwr ffafriol i boblogaeth y fôr-wennol fechan. Y bygythiadau presennol yw newid arfordirol a all leihau'r cynefin addas, agored heb lystyfiant uwchben llanw uchel ar gyfer nythu, ac ysglyfaethu cywion gan y cudyll coch. Ar hyn o bryd caiff bygythiadau aflonyddwch ac ysglyfaethu gan lwynogod eu lliniaru gan ffensys, arwyddion ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Roedd gan nythfa Gronant boblogaeth fridio gymedrig flynyddol o 121 o barau a chynhyrchiant o 0.88 yn y cyfnod 2009-2013. Y cymedr pum mlynedd o dan y prosiect Life oedd 146 o barau a chynhyrchiant o 1.01. Felly mae canlyniadau prosiect Life yn awgrymu gwelliant mewn cynhyrchiant ac arafu yn nirywiad y boblogaeth yn safleoedd prosiect Life ond dim cynnydd mewn parau magu ar hyn o bryd.

Mae Gronant yn gymharol unigryw gan ei fod yn llwyddiant sydd â thuedd am i fyny o ran cynhyrchiant a niferoedd bridio; yn 2018 roedd cyfanswm nifer y parau magu yn 171! Amcangyfrifir bod cyfanswm poblogaeth y DU yn 1,600 o barau mewn 40-50 o nythfeydd, felly mae dros 10% o boblogaeth fridio'r DU yn safle Gronant ac mae'n cynyddu llawer mwy ar ôl magu.

Drwy'r prosiect Life rydym wedi dod i ddeall pwysigrwydd y nythfa hon yn y Gogledd fel arhosfan ar ôl magu ac ardal fwydo bwysig. Mae rhaglen gosod modrwyau cod lliwiau o dan brosiect Life a'r cynlluniau hynny sy'n cael eu gweithredu gan Weriniaeth Iwerddon, Ynys Manaw a Cumbria wedi dangos bod adar o fetaboblogaeth Môr Iwerddon yn defnyddio Gronant ar ôl magu. Yn 2018, roedd adar a oedd wedi methu â bridio ar Ynys Manaw wedi dodwy eto a magu'n llwyddiannus yng Ngronant.

Mae Grŵp Môr-wennol Fechan Gogledd Cymru, a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ddinbych, wedi bod yn esiampl wych o ddenu cefnogaeth y cyhoedd. Mae ganddo gyfanswm o bron 200 o aelodau gwirfoddol sy'n talu tâl aelodaeth ac mae'n darparu cefnogaeth allweddol i nythfa Gronant ac i ymgysylltu â'r cyhoedd a'u haddysgu.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Monitro nodwedd yn barhaus.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Gweithio i wella cyflwr y nodwedd, mynd i'r afael â materion lleol a chodi ymwybyddiaeth.

Atodiad B5

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Cod morol AGA Forol Gogledd Ynys Môn
Sefydliad arweiniol:	(RSPB Cymru yn rhoi cymorth ychwanegol ar y warchodfa)

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Mae RSPB Ynys Lawd wedi ei lleoli o fewn MPA Forol Gogledd Ynys Môn.

Ar y warchodfa, mae gennym 200 o bobl y dydd yn cymryd rhan mewn arforgampau a hyd at 19 o gychod pleser yng nghyffiniau clogwyni'r môr o fis Ebrill i fis Medi. Rydym yn cofnodi aflonyddwch a mamaliaid môr a welir ac yn darparu addysg a chynghor i'r cyhoedd.

Rydym wedi cyfrannu at greu cod morol i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r ffordd orau o osgoi cael effaith negyddol ar yr amgylchedd morol.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Proffil uwch i gadwraeth forol a llai o aflonyddwch.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cynghor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Nac ydy	
Rheolaeth ehangach	Ydy	Ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd.

Atodiad B6

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Biosecurity for LIFE
Sefydliad arweiniol:	RSPB, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Mae Biosecurity for LIFE yn bartneriaeth rhwng yr RSPB, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban. Caiff y prosiect ei ariannu gan EU LIFE Environmental Governance and Information [LIFE17 GIE/UK/000572], Scottish Natural Heritage, Natural England ac Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

Cefndir

Mae poblogaeth llawer o rywogaethau adar môr y DU wedi gostwng yn aruthrol yn ystod y degawdau diwethaf. Nodwyd yn ddiweddar bod rhywogaethau sy'n bodoli mewn niferoedd o bwys rhyngwladol o amgylch arfordir y DU, megis y pâl a'r wylan goesddu, wedi'u nodi'n ddiweddar fel rhai sydd â 'risg uchel o ddifodiant byd-eang.'

Mae rhywogaethau estron goresgynnol, yn enwedig cnofilod, yn fygythiad mawr i ynysoedd adar y môr ledled y byd. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn un o brif ysgogwr colled bioamrywiaeth, ac mae ynysoedd yn arbennig o agored i niwed. Yn y pen draw, mae adar y môr angen dau beth hanfodol: lle diogel i fridio a manau diogel i fwydo. Gyda bygythiadau newid yn yr hinsawdd a gweithgareddau eraill yn bygwth arferion hela adar y môr, mae rhywogaethau estron goresgynnol yn bygwth eu gallu i fridio'n llwyddiannus yn uniongyrchol.

Mae treftadaeth naturiol llawer o ynysoedd y DU, gan gynnwys ynysoedd anghyfannedd, yn rhoi gwerth diwylliannol sylweddol i gymunedau ynysoedd, gyda pherthynas gymhleth rhwng natur, diwylliant ac economi'r lleoedd arbennig hyn yn aml iawn.

Ardal y Prosiect

Mae Biosecurity for LIFE yn brosiect DU gyfan sy'n gweithredu yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Yng Nghymru, dyma'r AGA sy'n ynysoedd rydym yn ymgysylltu â nhw:

- Gwales
- Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli
- Skomer, Skokholm a'r moroedd oddi ar Sir Benfro
- Môr-wenoliaid Môn
- Ynys Seiriol.

Mae'r RSPB wedi asesu nad oes gan y rhan fwyaf o'r 41 Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) sy'n ynysoedd adar môr gynlluniau bioddiogelwch na mesurau digonol ar waith. Bydd Biosecurity for LIFE yn gweithredu ar y 41 AGA hyn sy'n ynysoedd. Mae AGA sy'n ynysoedd ledled y DU yn gartref i rai o'n hadar môr mwyaf prin. Maen nhw'n gartref i 100% o boblogaeth y DU o adar drycin Manaw a'r pedryn cynffon fforchog ac 83% o'r pâl er enghraifft.

Mae partneriaid a chyllidwyr y prosiect wedi cyfrannu at lawer o'r cynlluniau llwyddiannus i ddileu rhywogaethau estron goresgynnol ar ynysoedd adar y môr dros y blynyddoedd, ond dim ond un agwedd ar fynd i'r afael â'r broblem yw hyn. Bydd rhoi mesurau bioddiogelwch ar waith yn ardal

y prosiect yn lleihau'n sylweddol y perygl o achosion newydd o gyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol, a bydd hefyd yn atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag ennill eu plwyf ar ynys os ydynt yn cael eu cyflwyno yno.

Nid mater amgylcheddol yn unig yw bioddiogelwch annigonol, ond gall gael effeithiau negyddol ar economïau ynysoedd, drwy fygwth arferion ffermio a chadw tyddyn a gwerth eco-dwristiaeth ynysoedd.

Bydd Biosecurity for LIFE yn gweithio i sicrhau bod poblogaethau adar môr ynysoedd pwysig y DU yn cael manau diogel i fridio a meithrin cydnerthedd hirdymor gan ystyried y bygythiadau sylweddol eraill. Bydd hefyd yn ceisio sicrhau bod cymunedau ynysoedd yn cymryd rhan yn y gwaith o weithredu mesurau bioddiogelwch llwyddiannus a'u bod yn ganolog i'r gwaith hwnnw. Mae gan y prosiect uchelgeisiau ehangach hefyd i wella mynediad at wybodaeth ledled Ewrop ar arfer gorau o ran bioddiogelwch ynysoedd. Er mwyn cyflawni hyn bydd y prosiect yn ymgysylltu â sefydliadau ledled Ewrop er mwyn cychwyn grŵp cyngori a chreu gwefan dechnegol. Ffocws y wefan hon fydd llyfrgell wybodaeth a llwyfan i gasglu data ar fiolddiogelwch ac ymatebion i bresenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol ar draws Ewrop. Gwybodaeth nad yw'n cael ei chasglu ar hyn o bryd ond a fydd yn galluogi asesiadau o ddulliau llwyddiannus yn y dyfodol a fydd yn eu tro yn helpu i wella ein gwybodaeth am fiolddiogelwch.

Sut caiff hyn ei gyflawni?

Bydd tri Swyddog Bioddiogelwch yn cael eu penodi fel rhan o'r prosiect i gwmpasu'r DU gyfan (bydd un swyddog yn gyfrifol am gyflawni'r prosiect yng Nghymru a Gogledd Iwerddon). Bydd y swyddogion a thîm ehangach y prosiect yn gweithio tuag at:

- Werthuso'r mesurau bioddiogelwch presennol sydd ar waith ar ynysoedd yn ardal y prosiect;
- Darparu hyfforddiant, cyngor a chymorth i gymunedau ynysoedd, rheolwyr ac ymarferwyr perthnasol eraill i sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i ysgrifennu cynlluniau bioddiogelwch;
- Datblygu a chyflwyno cyrsiau hyfforddi ar gyfer prif gynulleidfaoedd targed ynysoedd, gan gynnwys rheolwyr, cymunedau, busnesau ac awdurdodau ynysoedd;
- Recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr;
- Goruchwylio'r broses o ddarparu offer a deunyddiau bioddiogelwch i fodloni gofynion y cynllun bioddiogelwch (bydd hyn yn cynnwys cael ci synhwyro cnofilod);
- Sicrhau bod AGA sy'n ynysoedd adar môr yn cael eu monitro am bresenoldeb ysglyfaethwyr, yn unol â'r cynlluniau bioddiogelwch;
- Ymgysylltu â'r gymuned a'r cyhoedd yn ehangach drwy gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o fiolddiogelwch ledled y DU, gan greu llwybrau arddangos ar dair AGA sy'n ynysoedd a gweithio gyda phlant ysgol;
- Gweithio gyda sefydliadau ar draws Ewrop i ddatblygu'r EBIRAG a chreu llwyfan ar gyfer dysgu traws-sefydliadol.

Yng Nghymru rydym wedi cysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a phartneriaid, a byddwn yn gweithio gyda nhw, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, RSPB Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru a'r gymuned ar Ynys Enlli. Wrth i'r prosiect dyfu, byddwn yn ymgysylltu'n ehangach â'r cymunedau lleol ar gyfer pob AGA darged i godi ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd lleol, cael cymorth i barhau i godi ymwybyddiaeth o fiolddiogelwch a denu gwirfoddolwyr i helpu i gynnal y canolfannau ymateb cyflym i bresenoldeb ysglyfaethwyr.

Hyd y prosiect

Cychwynnodd y prosiect ar 1 Awst 2018 ac mae disgwyl iddo gael ei lansio'n gyhoeddus ym mis Mai 2019. Bydd y prosiect ar waith tan fis Gorffennaf 2022.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Nodau allweddol y prosiect

- Cynnal asesiad technegol o'r mesurau bioddiogelwch sydd eu hangen ar y 41 AGA sy'n ynysoedd adar môr yn y DU;
- Cynhyrchu cynlluniau bioddiogelwch cynhwysfawr a chyfredol ar gyfer pob un o'r 41 AGA;
- Gwella gallu trigolion, busnesau ac awdurdodau lleol ynysoedd i helpu i gynnal bioddiogelwch;
- Sefydlu 'canolfannau ymateb yn gyflym i bresenoldeb rhywogaethau annymunol' mewn lleoliadau strategol ledled y DU;
- Rhoi dulliau gwylidwriaeth arloesol ar waith i fonitro gweithgarwch rhywogaethau estron goresgynnol;
- Codi ymwybyddiaeth o fesurau bioddiogelwch ymhlith y cyhoedd yn ehangach a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol;
- Sefydlu a chynnal cronfa ddata bwrpasol i gofnodi achosion o rywogaethau estron goresgynnol ar ynysoedd adar môr ledled y DU, ac ymatebion i'r achosion hynny;
- Cychwyn EBIRAG (Grŵp Cyngori ar Ddileu, Bioddiogelwch ac Ymateb i Bresenoldeb Rywogaethau Estron Ewropeaidd (EBIRAG));
- Datblygu gwefan a fydd yn ffynhonnell wybodaeth i sefydliadau ledled Ewrop sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol ar ynysoedd. Mae hyn yn cynnwys adnoddau megis cynlluniau bioddiogelwch pro-fforma a chronfa ddata o ymatebion i bresenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Ydy	Darparu hyfforddiant, cyngor a chymorth i gymunedau ynysoedd, rheolwyr ac ymarferwyr perthnasol eraill fel bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i sicrhau bioddiogelwch effeithiol.
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Bydd y prosiect yn sefydlu ac yn cynnal cronfa ddata bwrpasol i gofnodi presenoldeb rhywogaethau estron ar ynysoedd adar y môr ledled y DU, a'r ymatebion i hynny.
Rheolaeth ehangach	Ydy	Lliniaru bygythiad rhywogaethau estron goresgynnol i AGA. Codi ymwybyddiaeth o fesurau bioddiogelwch.

Atodiad B7

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	SeaSearch
Sefydliad arweiniol:	Y Gymdeithas Cadwraeth Forol

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhwch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Arolygon gwyddoniaeth tanddw dinasyddion sy'n ceisio pennu presenoldeb/absenoldeb, statws a newidiadau i gynefinoedd a rhywogaethau.

Crynodeb o arolygon 2018 yn nyfroedd Cymru:

Cimwch coch (Palinurus elephas):

Cynhaliwyd arolwg pwrpasol o'r cimwch coch gan ddeifwyr yn Sir Benfro ar ddau safle a nodwyd fel cynefinoedd addas ar gyfer cimychiaid coch lle'r oeddent yn olygfa gyffredin i ddeifwyr. Mae'r niferoedd a gofnodwyd yn ystod yr arolwg yn isel iawn o gymharu â'r niferoedd uwch a gofnodwyd gan ddeifwyr yn ystod y 1970au a'r 1980au. Cafodd y cimychiaid coch eu cofnodi o ddechrau mis Mai i fis Hydref, gyda niferoedd uwch yn cael eu cofnodi yn yr arolygon ar ddiwedd mis Mai, Gorffennaf ac Awst. Gwelwyd nifer iach o anifeiliaid ifanc sy'n dangos bod aelodau newydd yn ymuno â'r boblogaeth. Roedd amrywiaeth dda ym maint yr anifeiliaid llawndwf ac mae hyn unwaith eto'n arwydd o ddsbarthiad oedran da yn y boblogaeth.

Gogledd a Gorllewin Ynys Môn:

Yn anffodus, unwaith eto oherwydd y tywydd, nid oedd modd i ddeifwyr gyrraedd manau blaenoriaeth CNC rhwng Ynys Arw ac Ynys Lawd ac o amgylch Bae Cemaes. Serch hynny, llwyddodd ein deifwyr i gasglu data o gwmpas Ynys Gybi, yn ogystal ag archwilio llongddrylliad yr Hope of Star ger harbwr Caergybi, sy'n adnabyddus am ei gyflenwad toreithiog o fflint.

De Ynys Môn (ACA Afon Menai a Bae Conwy):

Yn ystod helpa lwyddiannus am noethdagellog yn Afon Menai (Perch Rock ac o dan Bont Menai), cofnododd ein hymchwylwyr gyfanswm o 22 o rywogaethau dros dridiau. Gyda gwybodaeth a microsgop Ian Smith, llwyddodd y tîm Seasearch i adnabod y rhywogaethau mwyaf anghyfarwydd gan elwa'n fawr ar y cyfarwyddyd. Ar wahân i'r deifio am noethdagellog, deifiwyd eto o amgylch Ynys Seiriol fel rhan o ben-blwydd Seasearch yn 30 oed, gyda'r nod o gynhyrchu adroddiad yn cymharu'r data cyntaf a gasglwyd yn yr ardal a'r data a gofnodwyd eleni, 30 mlynedd yn ddiweddarach.

Penrhyn Llŷn (ACA Pen Llŷn a'r Sarnau):

Bu deifwyr yn ymweld eto â'r ardal i'r gogledd-ddwyrain o Borth Ysgaden, er mwyn cynhyrchu adroddiad tebyg i un Ynys Seiriol, unwaith eto gan ddefnyddio data a gasglwyd 30 mlynedd ar wahân. Yn ogystal â'r deifio i ddathlu'r 30, roedd y Prosiect Maelgwn: Cymru i fod i ddechrau gydag arolygon yn cychwyn o amgylch Mochras (ger Harlech). Yn anffodus, rhoddodd y tywydd stop ar y ddau benwythnos ond rydym wedi dysgu o hyn a byddwn yn defnyddio dull mwy adweithiol ar gyfer yr arolygon y flwyddyn nesaf.

Aberdaugleddau:

Mae dyfrffordd Aberdaugleddau'n ardal brysur iawn gyda diddordeb masnachol a hamdden, sy'n cynnwys llawer o gynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd cenedlaethol: riffiau dyfroedd cyflym llanwol, gwelyau gwellt y gamlas *Zostera marina* a'r wystrys brodorol *Ostrea edulis*. Mae niferoedd uchel o rywogaethau estron hefyd fel yr ewin mochyn *Crepidula fornicata* goresgynnol. Deifiwyd mewn dau safle ym mynedfeydd dyfrffordd Aberdaugleddau yn 2018: creigres Lindsay sydd ar ochr ogleddol Bae Dale a chreigres Montreal, yn agos i Little Castle Head ym mae Sandy Haven. Mae East Pickard Bay (i'r de o Benrhyn Angle) yn lleoliad arfaethedig fel Ardal Brawf Ynni'r Môr (META) ac mae'r data o ddeifio Seasearch wedi'i roi i Ynni Môr Cymru.

Parth Cadwraeth Morol Skomer:

Ym mis Mehefin, cwblhawyd cwrs adnabod noethdangellog a deifio gyda ffocws ar noethdangellog yn Martins Haven, gan gyfrannu at arolwg noethdangellog Parth Cadwraeth Morol Skomer 2018. Cofnododd yr arolwg 29 o rywogaethau yn cynnwys *Doto floridicola*, *Diaphorodoris alba* (isod), *Eubranchus linensis* a *Thecacera pennigera* (sy'n brin neu'n brin iawn yn y DU).

Deifiwyd ar Benrhyn Gogledd Marloes i wirio cofnodion hanesyddol o'r *Sabellaria spinulosa*; mae riffiau biogenig o'r rhywogaeth hon yn cael eu diogelu o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE ac maent yn nodwedd o ACA Forol Sir Benfro. Cofnodwyd y molwsg morol hirhoedlog cragen forwyn fwyaf Gwlad yr Iâ, *Arctica islandica* hefyd (rhywogaeth blaenoriaeth Adran 7 yng Nghymru).

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Allbynnau:

Derbyniwyd cyfanswm o 118 o ffurflenni Seasearch ar gyfer deifiau yn 2018 – mae'r lleoliadau i'w gweld ar ddau fap a anfonwyd fel atodiadau ar wahân. Mae'r holl ddata wedi'i fewnbynnu i'r Cofnodydd Morol, wedi'i rannu gyda CNC ac wrthi'n ymddangos ar Atlas NBN (gyda chofnodion rhywogaethau sensitif yn aneglur). Bydd adroddiad cryno ar gael ar wefan Seasearch.

Canlyniadau:

Gwell tystiolaeth a data sy'n dangos tueddiadau tymhorol ar gyfer amryw o rywogaethau mewn safleoedd deifio ledled Cymru.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Nac ydy	
Rheolaeth ehangach	Ydy	Gwell tystiolaeth a data sy'n dangos tueddiadau tymhorol ar gyfer amryw o rywogaethau mewn safleoedd deifio ledled Cymru.

Atodiad B8

Teitl y prosiect/ cam gweithredu:	Deall effaith gweithgareddau ar ddyfroedd arfordirol
Sefydliad arweiniol:	Dŵr Cymru

Disgrifiad cryno o'r prosiect/cam gweithredu, gan gynnwys yr MPA(s) a gwmpesir ac a yw'r weithred yn gyflawn neu'n barhaus (os yw'n barhaus, rhowch y dyddiad cau ar gyfer cwblhau):

Mae rhaglen fuddsoddi bresennol Dŵr Cymru (2015-2020) yn cynnwys rhaglen fawr o ymchwiliadau i wella dealltwriaeth y cwmni o'r effaith y mae ef ac eraill yn ei chael ar ddyfroedd arfordirol Cymru. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu mewn cydweithrediad agos â CNC, ac mae Dŵr Cymru wedi rhannu'r canlyniadau gyda'r sefydliad hwnnw.

Roedd Dŵr Cymru yn allweddol hefyd o ran darbwylllo diwydiant dŵr y DU i gomisiynu ei gangen ymchwil, UKWIR, i ymgymryd â phrosiect mawr i edrych ar amrywiaeth o broblemau yn ymwneud â phlastigau, gan gynnwys tynged microblastigau a nanoblastigau sy'n mynd i mewn i'n carthffosydd. Er nad yw'n canolbwyntio'n benodol ar yr amgylchedd morol, dylai wneud cyfraniad defnyddiol at y corff cynyddol o wybodaeth am dynged plastigau yn yr amgylchedd dyfrol.

Canlyniad(au) (gwirioneddol/disgwyliedig):

Mae'r dystiolaeth sydd wedi ymddangos wedi llywio rhaglen Dŵr Cymru o welliannau yn ei asedau dŵr gwastraff arfordirol yn ystod 2020-2025. Er ei bod wedi targedu, er enghraifft, ardaloedd fel dyfroedd pysgod cregyn yn bennaf, y gobaith yw y bydd rhai o MPAAu Cymru yn elwa'n anuniongyrchol hefyd.

Bydd y camau hyn yn cynyddu'r sail wybodaeth am dynged plastigau yn yr amgylchedd dyfrol hefyd.

At ba rai o'r egwyddorion rheoli y mae'r prosiect/gweithredu hwn yn cyfrannu, a sut?

Egwyddor rheoli	Ydy/ Nac ydy	Os ydy, esboniwch sut
Cynllunio strategol	Nac ydy	
Rheoliadau, cytuno ar ddatblygiadau a phrosesau asesu	Nac ydy	
Cyngor ac arweiniad ar reoli	Nac ydy	
Deall cyflwr safleoedd a'u nodweddion, a'r pwysau a bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu, er mwyn arwain rheolwyr	Ydy	Bydd gwybodaeth a gesglir trwy'r rhaglen yn gwella'r sail dystiolaeth ar y llwybrau ar gyfer cyflwyno plastigau i safleoedd gwarchoddedig a'u heffaith ar y safleoedd hynny a'u nodweddion.
Rheolaeth ehangach	Nac ydy	